



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4
Legislation Committee No. 4**

**Dydd Iau, 11 Mawrth 2010
Thursday, 11 March 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru)—Cyfnod 1: Sesiwn Dystiolaeth
1—yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Mesur Arfaethedig
The Proposed Waste (Wales) Measure—Stage 1: Evidence Session 1—the Member in
Charge of the Proposed Measure

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llofarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the committee. In the right-hand column, a translation of those speeches is
included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Christine Chapman	Llafur Labour
Bethan Jenkins	Plaid Cymru The Party of Wales
Brian Gibbons	Llafur Labour
Jonathan Morgan	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) Welsh Liberal Democrats (Committee Chair)
Kirsty Williams	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Jane Davidson AM	Aelod Cynulliad, Llafur, (y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai) Assembly Member, Labour (the Minister for Environment, Sustainability and Housing)
Prys Davies	Rheolwr Deddfwriaeth, Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Legislation Manager, Department of Environment, Sustainability and Housing
Matthew Dunstan	Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Legal Services Department
Nia James	Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Legal Services Department
Andy Rees	Pennaeth y Polisi Gwastraff Head of Waste Policy

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Sarah Beasley	Clerc Clerk
Joanest Jackson	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Sarah Sargent	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Nia Seaton	Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Members' Research Service

Dechreuodd y cyfarfod am 2.45 p.m.
The meeting began at 2.45 p.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **Jenny Randerson:** Welcome to the meeting. There are no substitutions and no oes dirprwyon nac ymddiheuriadau, o dan **Jenny Randerson:** Croeso i'r cyfarfod. Nid oes dirprwyon nac ymddiheuriadau, o dan

apologies, under item 1. In the event of a fire alarm, Members should leave the room by the marked exits and follow the instructions of the ushers and staff. No tests are forecast for today. Please remember to turn off all mobile phones, BlackBerrys and pagers, as they interfere with broadcasting equipment. I remind you that the National Assembly operates through the media of the Welsh and English languages. Headphones are provided for translation and can also be used for amplification. The interpretation is available on channel 1 and the amplified audio is on channel 0.

2.46 p.m.

**Y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru)—Cyfnod 1: Sesiwn
Dystiolaeth 1—yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Mesur Arfaethedig
The Proposed Waste (Wales) Measure—Stage 1: Evidence Session 1—the
Member in Charge of the Proposed Measure**

[2] **Jenny Randerson:** We will move to our main business of the day, namely the consideration of the Proposed Waste (Wales) Measure. This is our first evidence session as part of Stage 1. I extend a warm welcome to Jane Davidson, the Minister for Environment, Sustainability and Housing. The Minister has four officials with her: Prys Davies from the Department for Environment, Sustainability and Housing, Andy Rees, head of waste policy, and Nia James and Matthew Dunstan from the Legal Services department. Welcome to you all.

[3] We will now move straight into our questions, with your agreement, Minister. I see that you are happy to do that. I will start with an open and basic question that will enable you to introduce the proposed Measure to us. Would you like to set out the key objectives to be achieved by it and explain how its provisions will provide for that?

[4] **The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** I am grateful for the opportunity to present this very important, in our view, proposed Measure to you. You will all be fully aware of the Assembly Government's commitment to sustainable development, given that it is a central organising principle

item 1. Os aiff y larwm tân, dylai'r Aelodau adael yr ystafell drwy'r allanfeydd sydd wedi'u nodi a dilyn cyfarwyddiadau'r tywyswyr a'r staff. Nid oes profion i fod i gael eu cynnal heddiw. Cofiwch ddiffodd pob ffôn symudol, BlackBerry a galwr, gan eu bod yn amharu ar y cyfarpar darlledu. Atgoffaf chi fod y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Darperir clustffonau ar gyfer y cyfieithu a gellir eu defnyddio hefyd i chwyddo'r sain. Mae'r cyfieithu ar gael ar sianel 1 ac mae'r chwyddo sain ar sianel 0.

Jenny Randerson: Symudwn at ein prif fusnes heddiw, sef ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru). Hon yw ein sesiwn dystiolaeth gyntaf fel rhan o Gyfnod 1. Estynnaf groeso cynnes i Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Mae pedwar swyddog gyda'r Gweinidog: Prys Davies o Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Andy Rees, pennaeth y polisi gwastraff, a Nia James a Matthew Dunstan o'r adran Gwasanaethau Cyfreithiol. Croeso ichi i gyd.

Awn yn syth yn awr, gyda'ch cytundeb, Weinidog, at ein cwestiynau. Gwelaf eich bod yn hapus i wneud hynny. Dechreuaf gyda chwestiwn agored a sylfaenol a fydd yn eich galluogi i gyflwyno'r Mesur arfaethedig inni. A hoffech nodi'r amcanion allweddol sydd i gael eu cyflawni ganddo ac egluro sut y bydd ei ddarpariaethau yn caniatáu ar gyfer hynny?

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyflwyno ichi'r Mesur arfaethedig hwn sydd, yn ein barn ni, yn bwysig iawn. Byddwch i gyd yn llwyr ymwybodol o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy, o gofio ei fod yn brif egwyddor drefniadol inni. Fel

of ours. As part of that commitment, we use the ecological footprint as a high-level indicator of delivery. Waste accounts for around 15 per cent of our ecological footprint, so, from a sustainability perspective, we need to take action to bring that down. The other major external imperative is the waste management hierarchy under the waste framework directive. It starts with reducing waste, then reusing, then recycling, then energy recovery, and then, last and very much least, disposal. So, the waste framework directive hierarchy looks at all the actions that can be taken to move away from disposal as the means of dealing with waste.

[5] Our proposed Measure on waste brings forward a range of initiatives that contribute to the development of sustainable and effective waste management arrangements in Wales. You may also be aware, as a committee, that we have been consulting on a new overarching waste strategy document, 'Towards Zero Waste', and the final document is due to come out in June. That looks at setting a long-term framework for waste management, and it has the overall aim of our taking a zero-waste approach. Therefore, we hope that zero waste will be going to landfill for disposal—that last and bottom option of the hierarchy. The provisions of the proposed Measure will take us in that direction. They will place a specific focus on ensuring that Wales becomes a high recycling society by 2025. Adopting more sustainable waste management practices will reduce our ecological footprint and our carbon footprint, in line with our sustainable development scheme. In addition, managing our scarce resources better will help to improve local environmental quality.

2.50 p.m.

[6] I will briefly introduce the four elements of the proposed Measure. First, the provision on single-use carrier bags will enable the Welsh Ministers to impose duties in respect of the destination of the net proceeds of the charge to be imposed in regulations under the Climate Change Act 2008—that is, if the voluntary agreement

rhan o'r ymrwymiad hwnnw, yr ydym yn defnyddio'r ôl-troed ecolegol fel dangosydd cyflawni lefel uchel. Mae gwastraff i gyfrif am oddeutu 15 y cant o'n hól-troed ecolegol, felly, o safbwynt cynaliadwyedd, mae angen inni weithredu i ostwng hynny. Yr orfodaeth allanol arall o bwys yw'r hierarchaeth rheoli gwastraff o dan y gyfarwyddeb fframwaith gwastraff. Mae'n dechrau gyda lleihau gwastraff, yna ailgylchu, wedyn adfer ynni, ac yna, yn olaf ac yn sicr iawn yn lleiaf, gwaredu. Felly, mae hierarchaeth y gyfarwyddeb fframwaith gwastraff yn edrych ar yr holl gamau gweithredu y gellir eu cymryd i symud oddi wrth waredu fel y ffordd o ddelio â gwastraff.

Mae ein Mesur arfaethedig ynghylch gwastraff yn dod ag amryw o gynlluniau gerbron sy'n cyfrannu at ddatblygu trefniadau rheoli gwastraff cynaliadwy ac effeithiol yng Nghymru. Efallai eich bod yn ymwybodol hefyd, fel pwyllgor, ein bod wedi bod yn ymgynghori ynghylch dogfen ar strategaeth wastraff newydd drosfwaol, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', ac mae'r ddogfen derfynol i fod i gael ei chyhoeddi ym mis Mehefin. Mae honno'n ceisio gosod fframwaith tymor hir i reoli gwastraff, a'i nod cyffredinol yw y byddwn yn gweithredu ar sail dim gwastraff. Felly, gobeithiwn na fydd unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi i gael ei waredu—sef opsiwn olaf ac isaf yr hierarchaeth. Bydd darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn mynd â ni i'r cyfeiriad hwnnw. Byddant yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod Cymru'n dod yn gymdeithas sy'n ailgylchu llawer erbyn 2025. Bydd mabwysiadu arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy yn lleihau ein hól-troed ecolegol a'n hól-troed carbon, yn unol â'n cynllun datblygu cynaliadwy. Hefyd, bydd rheoli ein hadnoddau prin yn well yn help i wella ansawdd yr amgylchedd yn lleol.

Yr wyf am gyflwyno pedair elfen y Mesur arfaethedig yn fyr. Yn gyntaf, bydd y ddarpariaeth ynglŷn â bagiau siopa untro yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu dyletswyddau o safbwynt pen taith yr enillion o'r tâl a bennir mewn rheoliadau o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008—hynny yw, os na fydd y cytundeb gwirfoddol gyda'r

with the retail industry does not produce satisfactory results. That came through from a committee report and has been supported by all parties at the Assembly. This is a part of a wider policy on single-use carrier bags, which will help to reduce waste and improve local environmental quality by reducing litter.

diwydiant manwerthu yn cynhyrchu canlyniadau boddhaol. Daeth hynny o adroddiad pwyllgor ac mae wedi cael ei gefnogi gan bob plaid yn y Cynulliad. Mae hyn yn rhan o bolisi ehangach ar fagiâu siopa untro, a fydd yn help i leihau gwastraff a gwella ansawdd yr amgylchedd yn lleol drwy leihau sbwriel.

[7] Secondly, it will establish statutory waste targets in relation to municipal waste, with the aim of adopting more sustainable waste management practices in line with the waste hierarchy.

Yn ail, bydd yn sefydlu targedau gwastraff statudol mewn perthynas â gwastraff trefol, gyda'r nod o fabwysiadu arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.

[8] Thirdly, the provisions in the proposed Measure dealing with landfill will enable the Welsh Ministers to introduce bans or restrictions on specific kinds of waste going to landfill. Once again, that will lead to the adoption of more sustainable waste management practices, in line with the waste hierarchy.

Yn drydydd, bydd y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig sy'n delio â thirlenwi yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar fathau penodol o wastraff rhag iddo fynd i safleoedd tirlenwi. Unwaith eto, bydd hynny'n arwain at fabwysiadu arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy, yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.

[9] Finally, the development of site waste management plans, including the power to establish a fee and charges regime to fund the monitoring and enforcement of such plans, will lead to more sustainable waste management practices specifically in the construction and demolition sector.

Yn olaf, bydd datblygu cynlluniau rheoli gwastraff safle, yn cynnwys y pŵer i sefydlu trefn codi ffioedd a thaliadau i ariannu'r gwaith o fonitro gorfodaeth cynlluniau o'r fath, yn arwain at arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy, yn arbennig yn y sector adeiladu a dymchwel.

[10] **Jenny Randerson:** Thank you very much, Minister, for that comprehensive answer. Following on from that, what do you believe are the shortcomings of the current legislation, making it necessary to introduce this proposed Measure, and are you confident that it will overcome those problems?

Jenny Randerson: Diolch yn fawr ichi, Weinidog, am yr ateb cynhwysfawr hwnnw. Yn dilyn o hynny, beth yn eich barn chi yw diffygion y ddeddfwriaeth bresennol, sy'n golygu bod angen cyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn, ac a ydych yn hyderus y gwnaiff oresgyn y problemau hynny?

[11] **Jane Davidson:** In relation to the single-use carrier bags, the Climate Change Act enables the Welsh Ministers to introduce a charge, but, as was identified in the policy committee report from the Assembly, the Act does not give the Welsh Ministers the power to require retailers to pass on the net proceeds. So, the Climate Change Act enabled the introduction of the charge, but it does not enable the Welsh Ministers to pass on the proceeds. That gap is therefore addressed by this proposed Measure.

Jane Davidson: Yng nghyswllt y bagiau siopa untro, mae'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno tâl, ond, fel y nodwyd yn adroddiad pwyllgor polisi'r Cynulliad, nid yw'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i fynnu bod manwerthwyr yn pasio'r enillion net ymlaen. Felly, yr oedd yn bosibl cyflwyno'r tâl yn sgil y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd, ond nid yw'n galluogi Gweinidogion Cymru i basio'r enillion ymlaen. Mae'r Mesur arfaethedig hwn felly yn mynd i'r afael â'r bwllch hwnnw.

[12] On waste targets, the Local Government (Wales) Measure includes a power to establish targets on a statutory footing as performance standards, but it does not allow any powers to issue financial penalties to local authorities for failing to meet particular targets. The Proposed Waste (Wales) Measure addresses that.

Yng nghyswllt targedau gwastraff, mae'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn cynnwys pŵer i sefydlu targedau ar sail statudol fel safonau perfformiad, ond nid yw'n caniatáu unrhyw bwerau i roi cosbau ariannol i awdurdodau lleol am fethu cyrraedd targedau neilltuol. Mae'r Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) yn mynd i'r afael â hynny.

[13] In the context of landfill, there are gaps in the existing powers on bans or restrictions. We can regulate activities that cause environmental pollution under the Pollution Prevention and Control Act 1999, and under the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2007, made under that Act. However, our policy aims are not just about pollution; they extend well beyond that. So, in pollution terms, we could not regulate activities in relation to materials such as metals and glass to pull them out of landfill, but we may well want to do so. In fact, we do want to pull them out of landfill, because that will preserve valuable resources. So, a new power that enables us to address the wider aims of better resource efficiency and the development of more sustainable waste management practice will allow us to determine what is appropriate in proscribing particular materials from landfill.

Yng nghyd-destun tirlenwi, mae bylchau yn y pwerau presennol ynghylch gwaharddiadau neu gyfyngiadau. Gallwn reoleiddio gweithgareddau sy'n achosi llygredd amgylcheddol o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, ac o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007, a wnaed o dan y Ddeddf honno. Fodd bynnag, nid â llygredd yn unig y mae a wnelo ein hamcanion polisi; maent yn ymestyn ymhell y tu hwnt i hynny. Felly, o safbwynt llygredd, nid oeddem yn gallu rheoleiddio gweithgareddau yn ymwneud â defnyddiau fel metelau a gwydr i'w tynnu o'r ffrwd dirlenwi, ond mae'n bosibl iawn y byddwn am wneud hynny. Yn wir, yr ydym am eu tynnu o'r ffrwd dirlenwi, oherwydd bydd hynny'n cadw adnoddau gwerthfawr. Felly, bydd pŵer newydd sy'n ein galluogi i fynd i'r afael ag amcanion ehangach gwell effeithlonrwydd adnoddau a datblygu arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy yn caniatáu inni benderfynu beth sy'n briodol wrth wahardd defnyddiau neilltuol o safleoedd tirlenwi.

[14] In the case of the last element, the site waste management plans, we already have the power to introduce the plans. In fact, we are just about to do so. I think that we will be consulting on regulations for the introduction of site waste management plans in Wales in the autumn. We do not have the power in the context of fees and charges schemes in relation to site waste management plans in Wales, so the provision in the proposed Measure will address that matter. I hope that you can see that, in each case, the proposed Measure is plugging gaps in existing legislation that can only be met by us taking a proposed Measure forward in this way.

Yn achos yr elfen olaf, y cynlluniau rheoli gwastraff safle, mae'r pŵer i gyflwyno'r cynlluniau gennym yn barod. Yn wir, yr ydym ar fin gwneud hynny. Credaf y byddwn yn ymgynghori ynghylch rheoliadau i gyflwyno cynlluniau rheoli gwastraff safle yng Nghymru yn yr hydref. Nid yw'r grym gennym yng nghyd-destun cynlluniau codi ffioedd a thaliadau mewn perthynas â chynlluniau rheoli gwastraff safle yng Nghymru, felly bydd y ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig yn ymdrin â'r mater hwnnw. Gobeithiaf eich bod yn gallu gweld, ym mhob achos, fod y Mesur arfaethedig yn cau bylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol mewn ffordd nad yw ond yn bosibl drwy inni ffrw ymlaen fel hyn â Mesur arfaethedig.

[15] **Jenny Randerson:** Are there any

Jenny Randerson: A oes unrhyw

provisions in the proposed Measure that will impact on other Assembly legislation?

[16] **Jane Davidson:** There are no provisions in this proposed Measure that would impact negatively on any other Assembly legislation. There will be a direct relationship with the Local Government (Wales) Measure 2009 and it is proposed that that Measure and this proposed waste Measure will be used in the introduction of statutory targets. The local government Measure is based on a system of reporting, audit, support and intervention when authorities are at risk of non-compliance. Under the provisions of the proposed waste Measure, financial penalties could be introduced, in the way that landfill penalties currently operate. So, by having this dual approach, there will be real flexibility in the relationship between the Assembly Government and local authorities on these specific issues.

[17] **Bethan Jenkins:** To what extent will the proposed Measure lead to significant policy divergence from England and what will be the benefits of these changes in Wales? Will there be any cross-border issues as a result of this proposed Measure?

[18] **Jane Davidson:** With regard to single-use carrier bags, although there is provision in the climate change legislation, we are not aware of any intention by Ministers in the UK Government to introduce any legislation relating to single-use carrier bags in England at this point. So, there would be a direct difference, with Wales bringing forward that agenda. Our targets are more ambitious than English targets with regard to recycling, so we would be moving further and faster on those targets. We see this as a major economic opportunity, because an increase in recycling will provide an increase in the supply of quality recycle for Welsh re-processors and manufacturers. Given that site waste management plans are on site, as it were, we do not see any cross-border issues. The site waste management plans have been in place in England, but they are not subject to a fees and charging regime, although the

ddarpariaethau yn y Mesur arfaethedig a fydd yn effeithio ar ddeddfwriaeth arall gan y Cynulliad?

Jane Davidson: Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Mesur arfaethedig hwn a fyddai'n cael effaith negyddol ar unrhyw ddeddfwriaeth arall gan y Cynulliad. Bydd iddo berthynas uniongyrchol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r bwriad yw defnyddio'r Mesur hwnnw a'r Mesur arfaethedig hwn ynghylch gwastraff wrth gyflwyno targedau statudol. Mae'r Mesur llywodraeth leol wedi'i seilio ar system o adroddiadau, archwiliadau, cymorth ac ymyrryd pan fydd perygl i awdurdodau beidio â chydymffurfio. O dan ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig ynghylch gwastraff, gallai cosbau ariannol gael eu cyflwyno, yn y ffordd y mae cosbau tirlenwi yn gweithredu ar hyn o bryd. Felly, drwy'r dull deuol hwn o weithredu, bydd hyblygrwydd gwirioneddol yn y berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau lleol ar y materion penodol hyn.

Bethan Jenkins: I ba raddau y bydd y Mesur arfaethedig yn arwain at ddargyfeirio arwyddocaol o ran polisi rhyngom a Lloegr a beth fydd manteision y newidiadau hyn yng Nghymru? A fydd unrhyw ystyriaethau trawsffiniol o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig hwn?

Jane Davidson: O safbwynt bagiau siopa untro, er bod darpariaeth yn y ddeddfwriaeth newid yn yr hinsawdd, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw fwriad gan Weinidogion yn Llywodraeth y DU i gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth ynglŷn â bagiau siopa untro yn Lloegr ar hyn o bryd. Felly, byddai gwahaniaeth uniongyrchol, gyda Chymru'n symud yr agenda honno ymlaen. Mae ein targedau ni'n fwy uchelgeisiol na rhai Lloegr o ran ailgylchu, felly byddem yn symud ymhellach ac yn gyflymach ar y targedau hynny. Yr ydym yn gweld hyn fel cyfle economaidd mawr, oherwydd bydd cynnydd mewn ailgylchu yn darparu cynnydd yn y cyflenwad o ddeunydd ailgylchu i ailbroseswyr a gweithgynhyrchwyr Cymru. O gofio mai ar y safle, fel petai, y bydd cynlluniau rheoli gwastraff safle, nid ydym yn gweld unrhyw faterion trawsffiniol. Mae'r cynlluniau rheoli

necessity for considering such a regime that only offsets or recovers the costs has been identified there. It is not in any way a revenue-generating scheme.

gwastraff safle wedi cael eu sefydlu yn Lloegr, ond nid ydynt yn ddarostyngedig i drefn codi ffioedd a thaliadau, er bod y rheidrwydd i ystyried trefn o'r fath nad yw ond yn gwneud iawn am y costau neu'n eu hadennill wedi cael ei nodi yno. Nid yw mewn unrhyw ffordd yn gynllun cynhyrchu refeniw.

[19] The only area where there may be issues is on landfill bans or restrictions. We are about to undertake a joint policy consultation with the Department for Environment, Food and Rural Affairs on the introduction of restrictions on the landfilling of certain wastes. The outcome of that may be that we make different decisions in the two countries about what would or would not be allowed to go into landfill. There is a potential cross-border issue there, but that would be properly considered in the context of the specific proposal in question at that time.

Yr unig faes lle gallai fod anawsterau yw yng nghyswllt gwaharddiadau neu gyfyngiadau tirlenwi. Yr ydym ar fin ymgymryd ag ymgynghoriad polisi ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch cyflwyno cyfyngiadau ar anfon rhai mathau o wastraff i safleoedd tirlenwi. Efallai mai canlyniad hynny fydd ein bod yn gwneud penderfyniadau gwahanol yn y ddwy wlad ynglŷn â'r hyn y byddid ac na fyddid yn caniatáu iddo fynd i safleoedd tirlenwi. Mae yma fater trawsffiniol posibl, ond câi hynny ei ystyried yn briodol yng nghyd-destun y cynnig penodol dan sylw bryd hynny.

[20] **Bethan Jenkins:** How does the proposed Measure fit in with the Assembly's community obligations? Do you foresee any new European legislation that may impact on this proposed Measure in future?

Bethan Jenkins: Sut mae'r Mesur arfaethedig yn cyd-fynd â rhwymedigaethau cymunedol y Cynulliad? A ydych yn rhagweld unrhyw ddeddfwriaeth Ewropeaidd a allai effeithio ar y Mesur arfaethedig hwn yn y dyfodol?

[21] **Jane Davidson:** The Assembly Government has major obligations in terms of complying with the European Union landfill directive. As the requirements of the directive increase over time, our proposed Measure will be incredibly helpful in ensuring that local authorities and others in Wales are given additional support and encouragement by the Assembly Government to fulfil the obligations.

Jane Davidson: Mae gan Lywodraeth y Cynulliad rwymedigaethau mawr o ran cydymffurfio â chyfarwydddeb tirlenwi yr Undeb Ewropeaidd. Wrth i ofynion y gyfarwydddeb gynyddu dros amser, bydd ein Mesur arfaethedig yn gymorth enfawr i sicrhau bod awdurdodau lleol ac eraill yng Nghymru yn cael cymorth ar anogaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

3.00 p.m.

[22] The waste provisions seek to pursue the objectives that are set out in the waste framework directive, which has to be implemented by member states by 12 December 2010. That focuses on Europe becoming much closer to being a recycling society. Once again, our being clear in the proposed Measure as to what can be achieved will bring us closer to fulfilling those requirements.

Mae'r darpariaethau gwastraff yn ceisio mynd ar drywydd yr amcanion a nodwyd yn y gyfarwydddeb fframwaith gwastraff, y mae rhaid i'r aelod wladwriaethau ei gweithredu erbyn 12 Rhagfyr 2010. Mae'r gyfarwydddeb yn canolbwyntio ar newid Ewrop fel ei bod yn llawer nes at fod yn gymdeithas sy'n ailgylchu. Unwaith eto, drwy fod yn glir yn y Mesur arfaethedig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni, byddwn yn dod yn nes at fodloni'r gofynion hynny.

[23] **Brian Gibbons:** This is probably a basic question, but it has just occurred to me. The legislation will only cover household waste that local authorities collect. Looking at its purpose as introduced, it mentions local authorities, but will local authorities that collect business waste, for example, be covered by this? If it will cover a local authority's duty in relation to business waste, presumably businesses may find that they are being charged extra because of the extra requirements. It would be reassuring if that were not the case.

[24] **Jane Davidson:** It is probably best if Andy, who heads up waste policy, says exactly what waste is covered by the proposed Measure. There can be confusion because the statutory targets are municipal targets.

[25] **Brian Gibbons:** That is what I am trying to nail down.

[26] **Mr Rees:** The recycling targets would apply to all the waste that is collected by local authorities. That would include the waste that they collect from businesses. Under the Environmental Protection Act 1990, local authorities charge for the waste that they collect from businesses. That should be a reasonable charge, which is usually assumed to reflect full-cost recovery. It is exceedingly likely that, as the landfill tax increases, the recycling service that is provided to businesses will be cheaper than the collection and disposal service that is provided. This could result in a cost saving for businesses.

[27] **Brian Gibbons:** That is only if they succeed in meeting the targets. If they do not meet the targets, they get a fine, and, presumably, either the authority and the council tax payer pay the fine or it will be passed on to the businesses.

[28] **Mr Rees:** The amount of waste that is collected from businesses is around 10 to 15 per cent of the overall municipal waste, so it is a relatively small fraction. It is unlikely

Brian Gibbons: Mae'n siŵr fod hwn yn gwestiwn sylfaenol, ond mae newydd fy nharo. Ni fydd y ddeddfwriaeth ond yn cwmpasu gwastraff o gartrefi y mae awdurdodau lleol yn ei gasglu. O edrych ar ei phwrpas fel y'i cyflwynwyd, mae'n crybwyll awdurdodau lleol, ond a fydd awdurdodau lleol sy'n casglu gwastraff busnes, er enghraifft, yn cael eu cwmpasu? Os bydd yn cwmpasu dyletswydd awdurdod lleol mewn perthynas â gwastraff busnes, mae'n debyg y gallai busnesau ganfod bod mwy o dâl yn cael ei godi arnynt oherwydd y gofynion ychwanegol. Byddai'n tawelu meddyliau pe na bai hynny'n wir.

Jane Davidson: Mae'n siŵr y byddai'n well pe bai Andy, sef y pennaeth polisi gwastraff, yn dweud pa wastraff yn union sy'n cael ei gwmpasu gan y Mesur arfaethedig. Mae dryswch yn bosibl gan mai targedau trefol yw'r targedau statudol.

Brian Gibbons: Dyna wyf yn ceisio cadarnhad yn ei gylch.

Mr Rees: Byddai'r targedau ailgylchu yn gymwys i bob gwastraff sy'n cael ei gasglu gan awdurdodau lleol. Byddai hynny'n cynnwys y gwastraff y maent yn ei gasglu oddi wrth fusnesau. O dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae awdurdodau lleol yn codi tâl am y gwastraff y maent yn ei gasglu oddi wrth fusnesau. Dylai hwnnw fod yn dâl rhesymol, a chymerir fel arfer ei fod yn adlewyrchu'r gost o'i adennill yn llawn. Mae'n dra thebygol, wrth i'r dreth tirlenwi gynyddu, y bydd y gwasanaeth ailgylchu a ddarperir i fusnesau yn rhatach na'r gwasanaeth casglu a gwaredu a ddarperir. Gallai hyn arwain at arbediad costau i fusnesau.

Brian Gibbons: Nid yw hynny ond os ydynt yn llwyddo i gyrraedd y targedau. Os na chyrrhaeddant y targedau, cânt ddirwy, ac, yn ôl pob tebyg, un ai bydd yr awdurdod a thalwyr y dreth gyngor yn talu'r ddirwy neu bydd yn cael ei throsglwyddo i'r busnesau.

Mr Rees: Mae'r swmp gwastraff sy'n cael ei gasglu oddi wrth fusnesau oddeutu 10 i 15 y cant o'r gwastraff trefol drwyddo draw, felly mae'n elfen gymharol fach. Mae'n

that failure to recycle business waste would have a massive impact on their meeting the targets. In any event—the Minister might cover this later—there will be a protocol for penalties, and all sorts of circumstances would be taken into account. Fines would be applied only as a last resort. If that was an issue in respect of businesses, I am sure that that would be looked at as part of that penalties protocol.

[29] **Brian Gibbons:** I did not see that mentioned in the explanatory memorandum. Do you think that it would be useful for that to be added to the explanatory memorandum so that it is clear?

[30] **Mr Davies:** We could build on that. Any protocol would be a non-statutory mechanism. It would be a matter of our reaching a common understanding with local authorities and setting that out in a separate document, much as we have done in relation to the protocol for the landfill allowances scheme that we have in place, which we are currently reviewing. It does not tie in to any legislative process; it almost sits aside and complements it.

[31] **Brian Gibbons:** Is that a 'yes' to elaborating the point in the explanatory memorandum?

[32] **Mr Davies:** I think that the point can be elaborated. It is part of the overall context of the matter.

[33] **Jenny Randerson:** I am sure that we will take that up in our report. Bethan, back to you.

[34] **Bethan Jenkins:** I want to ask a question on the pre-introduction consultation. The explanatory memorandum outlines that consultation has already taken place. Could you expand on how the pre-introduction consultation has helped to shape the provisions of the proposed Measure?

[35] **Jane Davidson:** We published a document called 'Future Directions for Municipal Waste Management in Wales' back in October 2007. Around the same time,

annhebygol y byddai methiant i ailgylchu gwastraff busnes yn cael effaith enfawr ar ba un a ydynt yn cyrraedd y targedau. Pa un bynnag—efallai y bydd y Gweinidog yn ymdrin â hyn yn ddiweddarach—bydd protocol i gosbau, a byddai pob math o amgylchiadau yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Dim ond fel cam eithaf y câi dirwyon eu pennu. Pe bai hynny'n broblem yng nghyswllt busnesau, yr wyf yn siŵr y byddid yn edrych arno fel rhan o'r protocol cosbau.

Brian Gibbons: Ni welais hynny'n cael ei grybwyll yn y memorandwm esboniadol. A ydych yn credu y byddai'n dda o beth ychwanegu hynny at y memorandwm esboniadol fel ei fod yn glir?

Mr Davies: Gallem adeiladu ar hynny. Byddai unrhyw brotocol yn fecanwaith anstatudol. Byddai'n fater i ni ddod i ddealltwriaeth gyffredin gyda'r awdurdodau lleol yn ei gylch a chyflwyno hynny mewn dogfen ar wahân, fwy neu lai fel yr ydym wedi'i wneud mewn perthynas â phrotocol y cynllun lwfansau tirlenwi a sefydlwyd, yr ydym yn ei adolygu ar hyn o bryd. Nid yw ynghlwm wrth unrhyw broses ddeddfwriaethol; mae bron iawn yn eistedd i'r naill ochr ac yn ategu'r ddeddfwriaeth.

Brian Gibbons: Ai cytuno ydych i ymhelaethu ar y pwynt yn y memorandwm esboniadol?

Mr Davies: Credaf y gellir ymhelaethu ar y pwynt. Mae'n rhan o gyd-destun cyffredinol y mater.

Jenny Randerson: Yr wyf yn siŵr y rhoddwn sylw i hynny yn ein hadroddiad. Bethan, yn ôl atoch chi.

Bethan Jenkins: Hoffwn ofyn cwestiwn am yr ymgynghori cyn cyflwyno. Mae'r memorandwm esboniadol yn amlinellu bod ymgynghori eisoes wedi digwydd. A allech ymhelaethu ar sut y mae'r ymgynghori cyn cyflwyno wedi helpu i lunio darpariaethau'r Mesur arfaethedig?

Jane Davidson: Cyhoeddasom ddogfen o'r enw 'Future Directions for Municipal Waste Management in Wales' yn ôl ym mis Hydref 2007. Tua'r un pryd, sefydlasom drefniadau

we set up joint arrangements with the Welsh Local Government Association for a programme board to look at issues relating to the delivery of the waste agenda. The paper, 'Future Directions for Municipal Waste Management in Wales', was informed by a detailed study that was jointly commissioned with the WLGA, and conducted by a company called Eunomia Research and Consulting Ltd. All the way through this process, there have been very detailed discussions with local government about modelling and the best outcomes that have contributed towards the setting of the targets. In fact, 'Future Directions' has been through three iterations now in terms of discussions. We had a separate, proper consultation on the overarching waste strategy, 'Towards Zero Waste', between April and July last year.

[36] In the context of the site waste management plans, the consultation on the regulations to introduce the plans will take place a little later this year. Details on the proposals for any charging scheme will be informed by the outcomes of that consultation. The pre-consultation stage, which was facilitated through workshops and discussions, identified that a cost-recovery mechanism was needed to secure effective monitoring and enforcement of the site waste management plans.

[37] In the context of landfill, we are about to go out to consultation, jointly with DEFRA, on what should be covered by a landfill ban. Any subsequent regulations to implement landfill bans or restrictions will be subject to thorough consultation and regulatory impact assessments. We had not only the committee's work on single-use carrier bags, but we also had a formal Government consultation on single-use carrier bags during the summer of last year.

[38] **Bethan Jenkins:** I wish to clarify something. Will the consultations on the site waste management plans and landfill bans be considered during the regulation stages? Given that they could not have been considered during the preparation of the proposed Measure, will you be considering those consultations when you implement the regulations? Is that what you are saying?

ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer bwrdd rhaglen i edrych ar faterion perthnasol i roi'r agenda wastraff ar waith. Dylanwadodd astudiaeth fanwl a gomisiynwyd ar y cyd â CLILC, ac a gynhaliwyd gan gwmni o'r enw Eunomia Research and Consulting Ltd, ar y papur, 'Future Directions for Municipal Waste Management in Wales'. Drwy gydol y broses hon, bu trafodaethau manwl iawn gyda llywodraeth leol ynglŷn â modelu a'r canlyniadau gorau sydd wedi cyfrannu tuag at bennu'r targedau. Yn wir, mae 'Future Directions' wedi bod drwy'r felin dair gwaith erbyn hyn o ran trafodaethau. Cawsom ymgynghoriad llawn, ar wahân, ar y strategaeth wastraff drosfwaol, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', rhwng Ebrill a Gorffennaf y llynedd.

Yng nghyd-destun y cynlluniau rheoli gwastraff safle, bydd yr ymgynghori ynghylch rheoliadau i gyflwyno'r cynlluniau yn digwydd ychydig yn ddiweddarach eleni. Seilir manylion y cynigion am unrhyw gynllun codi tâl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw. Dangosodd y cyfnod cyn ymgynghori, a hwyluswyd drwy weithdai a thrafodaethau, fod angen mecanwaith adennill costau i sicrhau monitro a gorfodi effeithiol ar y cynlluniau rheoli gwastraff safle.

Yng nghyd-destun tirlenwi, yr ydym ar fin dechrau ymgynghori, ar y cyd â DEFRA, ynghylch yr hyn a ddylai gael ei gwmpasu gan waharddiad tirlenwi. Bydd unrhyw reoliadau yn sgil hynny i roi gwaharddiadau neu gyfyngiadau tirlenwi ar waith yn ddarostyngedig i ymgynghori trylwyr ac asesiadau effaith rheoleiddiol. Nid yn unig y cawsom waith y pwyllgor ar fagiâu siopa untro, ond cawsom hefyd ymgynghoriad ffurfiol gan y Llywodraeth ynghylch bagiau siopa untro yn ystod yr haf y llynedd.

Bethan Jenkins: Hoffwn gael eglurhad ar un peth. A fydd yr ymgynghoriadau ynghylch y cynlluniau rheoli gwastraff safle a'r gwaharddiadau tirlenwi yn cael eu hystyried yn ystod y cyfnod rheoliadau? O gofio na ellid bod wedi eu hystyried wrth baratoi'r Mesur arfaethedig, a fyddwn yn ystyried yr ymgynghoriadau hynny wrth roi'r rheoliadau ar waith? Ai dyna yr ydych yn ei ddweud?

[39] **Jane Davidson:** Regulations are separate from the proposed Measure. We will be taking account of the outcomes of the consultations in that context. Perhaps Nia could help us on this issue.

Jane Davidson: Mae rheoliadau ar wahân i'r Mesur arfaethedig. Byddwn yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriadau yn y cyddestun hwnnw. Efallai y gallai Nia ein helpu ar y mater hwn.

[40] **Ms James:** To clarify, Welsh Ministers already have the powers to make regulations requiring site waste management plans under section 54 of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005. So, the consultation that the Minister has just mentioned will relate to regulations made under section 54.

Ms James: I egluro, mae gan Weinidogion Cymru eisoes y pwerau i wneud rheoliadau yn gwneud cynlluniau rheoli gwastraff safle yn ofynnol o dan adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. Felly, bydd a wnelo'r ymgynghoriad y mae'r Gweinidog newydd ei grybwyll â rheoliadau a wneir o dan adran 54.

[41] **Bethan Jenkins:** Okay. Moving on, my next few questions are on regulation-making powers. Does the proposed Measure achieve the correct balance between the powers on its face and the powers given to Welsh Ministers to make regulations?

Bethan Jenkins: Iawn. A symud ymlaen, mae a wnelo fy nghwestiynau nesaf â'r pwerau i wneud rheoliadau. A yw'r Mesur arfaethedig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y pwerau ar ei wyneb a'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau?

[42] **Jane Davidson:** We hope so, although that is, in a sense, part of what you will undoubtedly be testing through the committee's scrutiny. What we have done in the explanatory memorandum is set out why the enabling powers are there in the context of Welsh Ministers making subordinate legislation. However, this is an area where there will be considerable detail, which is likely to be subject to periodic review or amendment that will need to go into the delivery mechanisms. That is why we have opted for that balance. Would you like to add anything, Prys?

Jane Davidson: Yr ydym yn gobeithio hynny, er bod hynny, mewn ffordd, yn rhan o'r hyn y byddwch mae'n siŵr yn ei brofi drwy waith craffu'r pwyllgor. Yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn y memorandwm esboniadol yw nodi pam mae'r pwerau galluogi yno yng nghyd-destun Gweinidogion Cymru yn llunio is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae hwn yn faes lle bydd llawer o fanylder, sy'n debygol o fod yn ddarostyngedig i adolygu neu ddiwygio cyfnodol y bydd angen iddo ymdrin â'r mecanweithiau cyflenwi. Dyna pam yr ydym wedi dewis y cydbwysedd hwnnw. A hoffech ychwanegu unrhyw beth, Prys?

[43] **Mr Davies:** I will just add that in relation to some of the other subordinate legislation powers under the proposed Measure, specifically the landfill ones, we are talking about a policy area that is emerging and developing, and the Minister has already mentioned the imminent consultation on it. This is an important legislative opportunity for us to ensure that we have the powers, once we have reached a policy view on any proposed landfill bans, to be able to move quickly on those areas. There are other factors that we need to take into account in reaching that balance between what is in the

Mr Davies: Dim ond ychwanegu ein bod, mewn perthynas â rhai o'r pwerau is-ddeddfwriaethol eraill o dan y Mesur arfaethedig, yn enwedig y rhai tirlenwi, yn siarad am faes polisi sy'n datblygu ac ehangu, ac mae'r Gweinidog eisoes wedi crybwyll yr ymgynghoriad sydd ar fin gael ei gynnal yn ei gylch. Mae hwn yn gyfle deddfwriaethol pwysig inni i sicrhau bod y pwerau gennym, unwaith y byddwn wedi llunio barn polisi ar unrhyw waharddiadau tirlenwi arfaethedig, i allu symud yn gyflym yng nghyswllt y meysydd hynny. Mae ffactorau eraill y mae angen inni eu cymryd i

proposed Measure and what is in the subordinate legislation.

ystyriaeth wrth gyrraedd y cydbwysedd hwnnw rhwng yr hyn sydd yn y Mesur arfaethedig a'r hyn sydd yn yr is-ddeddfwriaeth.

[44] **Bethan Jenkins:** Could you confirm the timescales for publishing guidance under the proposed Measure, consulting on the various provisions and bringing regulations into force? You have mentioned some of that already.

Bethan Jenkins: A allech gadarnhau'r amserlenni o ran cyhoeddi canllawiau o dan y Mesur arfaethedig, ymgynghori ynghylch y darpariaethau amrywiol a dod â rheoliadau i rym? Yr ydych wedi crybwyll peth o hynny yn barod.

3.10 p.m.

[45] **Jane Davidson:** We will want to make a number of regulations at the same time as the proposed Measure receives Royal Approval. That is particularly around the area dealing with waste targets, because we have been debating them for so long and we need this legislation in order to have the authority to put them in place, and so we will want to publish those at the same time.

Jane Davidson: Byddwn am wneud nifer o reoliadau yr un pryd ag y bydd y Mesur arfaethedig yn cael Cydsyniad Brenhinol. Mae a wnelo'r rheini'n arbennig â'r maes sy'n delio â thargedau gwastraff, oherwydd yr ydym wedi bod yn eu trafod cyhyd ac mae angen y ddeddfwriaeth hon arnom er mwyn cael yr awdurdod i'w sefydlu, felly byddwn am gyhoeddi'r rheini yr un pryd.

[46] There is some work going on looking at the potential timescale. The best thing I can do, while you are undertaking your Stage 1 study, is to write to the committee when we have a bit more information about that with the timescales for the introduction of the regulations and outline which regulations we will be looking at making alongside the Royal Approval.

Mae rhywfaint o waith yn mynd rhagddo yn edrych ar yr amserlen bosibl. Y peth gorau y gallaf ei wneud, tra ydych yn cynnal eich astudiaeth Cyfnod 1, yw ysgrifennu at y pwyllgor pan fydd gennym ychydig rhagor o wybodaeth am hynny gyda'r amserlenni i gyflwyno'r rheoliadau ac amlinellu pa reoliadau y byddwn yn ystyried eu gwneud ochr yn ochr â'r Cydsyniad Brenhinol.

[47] **Jenny Randerson:** Thank you very much. We would be grateful if you would write to us on that, Minister.

Jenny Randerson: Diolch yn fawr ichi. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu atom ar hynny, Weinidog.

[48] We will move on now to the specific provisions of the proposed Measure, starting with sections 1 and 2, which relate to charges on single-use carrier bags. Kirsty, would you like to ask some questions?

Symudwn yn awr at ddarpariaethau penodol y Mesur arfaethedig, gan ddechrau gydag adrannau 1 a 2, sy'n ymdrin â'r taliadau am fapiau siopa untro. Kirsty, a hoffech ofyn cwestiynau?

[49] **Kirsty Williams:** Minister, could you briefly explain what plans you have to work with retailers to ensure that there is a high rate of participation in the voluntary scheme?

Kirsty Williams: Weinidog, a allech egluro'n fyr pa gynlluniau sydd gennych i weithio gyda manwerthwyr i sicrhau bod cyfradd uchel o gyfranogi yn y cynllun gwirfoddol?

[50] **Jane Davidson:** We will need to have total participation in the voluntary scheme in the sense that the climate change legislation will provide the mechanism to introduce the charge. With regard to the voluntary scheme,

Jane Davidson: Bydd angen cyfranogiad llwyr yn y cynllun gwirfoddol arnom yn yr ystyr y bydd y ddeddfwriaeth newid yn yr hinsawdd yn darparu'r mecanwaith i gyflwyno'r tâl. O ran y cynllun gwirfoddol,

we are extremely keen to work with a range of organisations. A communication plan is being developed as we speak. We are also engaging with the representative bodies of relevant organisations so that the voluntary agreement is in place by the time the charge is introduced in 2011, and to ensure that we have full stakeholder involvement. The sector has told us that it is keen to support the voluntary agreement rather than have mandatory requirements. Therefore, working with them as effectively as possible to deliver that is in all of our interests.

[51] **Kirsty Williams:** Therefore, could you explain what role those retailers will have in determining how the net receipts from the sale of the bags would be applied?

[52] **Jane Davidson:** There is ongoing dialogue with retailers on this at the moment. The policy committee, if you remember, wanted to see the proceeds going to environmental causes. In the legislation that we are proposing under the proposed Measure, if the voluntary agreement is unsuccessful, we will deliver on the agreed outcome of the policy committee, which is that we are looking for the funds to go to environmental projects in Wales. However, I am sure that no member of this committee, or Assembly Member, would want to cut across existing funding schemes, for example, with organisations such as Macmillan Cancer Support, which is being supported as part of existing individual voluntary agreements from certain retailers that have already introduced a charge. So, we are keen to work with retailers to ensure that where those arrangements are in place and they want to continue with them, they have our full support in doing so under the voluntary agreement.

[53] **Kirsty Williams:** I am sorry, Chair, but I am not quite sure that I am clear on the Minister's answer with regard to what say the retailers will have. Are you saying that you will be telling retailers who may not be involved in an existing scheme how the money will be spent, or will the retailers have an opportunity to tell you what they want the money to be spent on? I think that we would all agree that, if there are existing schemes,

yr ydym yn hynod o awyddus i weithio gydag amryw o sefydliadau. Mae cynllun cyfathrebu wrthi'n cael ei ddatblygu y funud hon. Yr ydym yn cysylltu hefyd â chyrff cynrychiadol sefydliadau perthnasol fel y bydd y cytundeb gwirfoddol yn ei le erbyn i'r tâl gael ei gyflwyno yn 2011, ac i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn rhan o hyn. Mae'r sector wedi dweud wrthym ei fod yn awyddus i gefnogi'r cytundeb gwirfoddol yn hytrach na chael gofynion gorfodol. Felly, mae gweithio gyda hwy mor effeithiol â phosibl i gyflawni hynny er lles pawb ohonom.

Kirsty Williams: Felly, a allech egluro wrthyf pa rôl fydd gan y manwerthwyr hynny yn penderfynu sut y caiff y derbyniadau net o werthu'r bagiau eu defnyddio?

Jane Davidson: Mae deialog parhaus gyda manwerthwyr ar hyn o bryd. Yr oedd y pwyllgor polisi, os cofiwch chi, am weld yr enillion yn mynd i achosion amgylcheddol. Yn y ddeddfwriaeth yr ydym yn ei chynnig o dan y Mesur arfaethedig, os bydd y cytundeb gwirfoddol yn aflwyddiannus, byddwn yn gwireddu'r canlyniad y cytunodd y pwyllgor polisi arno, sef ein bod am i'r arian fynd i brosiectau amgylcheddol yng Nghymru. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr na fyddai unrhyw aelod o'r pwyllgor hwn, nac Aelod Cynulliad, am dorri ar draws cynlluniau cyllido presennol, er enghraifft, gyda sefydliadau fel Cymorth Canser Macmillan, sy'n cael eu cefnogi fel rhan o gytundebau gwirfoddol unigol presennol gan rai manwerthwyr sydd eisoes wedi cyflwyno tâl. Felly, yr ydym yn awyddus i weithio gyda manwerthwyr i sicrhau, lle mae'r trefniadau hynny wedi'u sefydlu a'u bod am barhau â nhw, eu bod yn cael ein cefnogaeth lwyr i wneud hynny o dan y cytundeb gwirfoddol.

Kirsty Williams: Mae'n ddrwg gennyf, Gadeirydd, ond nid wyf yn hollol siŵr fy mod yn glir o ran ateb y Gweinidog ynglŷn â faint o lais a fydd gan y manwerthwyr. A ydych yn dweud y byddwch yn dweud wrth fanwerthwyr nad ydynt efallai'n rhan o gynllun ar hun o bryd sut y caiff yr arian ei wario, neu a gaiff y manwerthwyr gyfle i ddweud wrthyf chi beth y maent hwy am i'r arian gael ei wario arno? Credaf y byddem i

no-one would want to cut across and undermine those. However, do new retailers coming into the scheme tell you what they want the money to be spent on, or will you tell them what the money should be spent on?

[54] **Jane Davidson:** Where links do not currently exist, we would encourage retailers to pass on funds to environmental projects in Wales. However, the point of the voluntary agreement is that the retailers would be determining where their money was spent.

[55] **Jenny Randerson:** Jonathan would like to ask a question.

[56] **Jonathan Morgan:** I would like to raise two points if I may, Chair. The first relates to that previous point. The Minister said that she would be encouraging retailers, but the legislation is quite clear in that it is not about encouraging, but rather it sets out environmental purposes. That is clearly set out in the proposed Measure. It is one thing to say that we would encourage retailers to put the money towards environmental projects, but it will be stating in law that that is where the money should be going.

[57] I have a concern about the regulations. You talk about the regulations to provide for a charge, but my understanding, from the explanatory memorandum, is that the regulations relating to the introduction of a charge would not come in until spring 2011. Yet, your proposed Measure also talks about the regulations required for you to direct the net proceeds of those charges. Why not wait and have one regulation or one set of regulations that does both, because, in essence, it is part of the same package? I do not see why you are rushing to introduce a regulation by spring 2011 on the charge while the regulation to direct where that charge and the net receipt of that charge goes will not come in until you have managed to introduce those regulations as a result of this proposed Measure. I am wondering why there is the rush to do the one without the other.

gyd yn cytuno, os oes cynlluniau ar hyn o bryd, na fyddai unrhyw un am dorri ar draws y rheini a'u tanseilio. Fodd bynnag, a fydd manwerthwyr newydd sy'n dod i mewn i'r cynllun yn dweud wrthyich ar beth y maent hwy am i'r arian gael ei wario, ynteu a fyddwch chi'n dweud wrthynt hwy ar beth y dylai'r arian gael ei wario?

Jane Davidson: Lle nad oes cysylltiadau'n bodoli ar hyn o bryd, byddem yn annog manwerthwyr i drosglwyddo'r arian i brosiectau amgylcheddol yng Nghymru. Fodd bynnag, diben y cytundeb gwirfoddol yw y byddai'r manwerthwyr yn penderfynu lle câi eu harian ei wario.

Jenny Randerson: Hoffai Jonathan ofyn cwestiwn.

Jonathan Morgan: Hoffwn godi dau bwynt os caf fi, Gadeirydd. Mae a wnelo'r cyntaf â'r pwynt blaenorol yna. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n annog manwerthwyr, ond mae'r ddeddfwriaeth yn glir iawn yn yr ystyr nad yw a wnelo ag annog, ond yn hytrach mae'n pennu pwrpasau amgylcheddol. Mae hynny wedi'i nodi'n glir iawn yn y Mesur arfaethedig. Un peth yw dweud y byddem yn annog manwerthwyr i roi'r arian tuag at brosiectau amgylcheddol, ond bydd yn datgan yn y gyfraith mai dyna lle dylai'r arian fynd.

Mae gennyf bryder ynglŷn â'r rheoliadau. Yr ydych yn sôn am y rheoliadau i ddarparu ar gyfer codi tâl, ond fy nealltwriaeth i, o'r memorandwm esboniadol, yw na fyddai'r rheoliadau ynglŷn â chyflwyno tâl yn dod tan wanwyn 2011. Ond, mae eich Mesur arfaethedig hefyd yn sôn am y rheoliadau sy'n ofynnol er mwyn i chi gyfeirio enillion net y taliadau hynny. Pam na wnewch chi ddisgwyl a chael un rheoliad neu un set o reoliadau sy'n gwneud y naill beth a'r llall, oherwydd, yn ei hanfod, mae'n rhan o'r un pecyn? Nid wyf yn gweld pam yr ydych yn rhuthro i gyflwyno rheoliad ynglŷn â'r tâl erbyn gwanwyn 2011 pan na fydd y rheoliad i bennu i ble y bydd y tâl hwnnw a'r derbyniadau net o'r tâl hwnnw yn mynd yn dod i rym nes byddwch wedi llwyddo i gyflwyno'r rheoliadau hynny o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig hwn. Yr wyf yn pendroni pam mae'r fath ruthr i gyflwyno un heb y

llall.

[58] **Jane Davidson:** I hope that three elements will clarify this for you. The first is that the voluntary agreement means that retailers can have an arrangement with any organisation that they so wish. I have used the example of MacMillan Cancer Support as a non-environmental organisation. As I said, we are encouraging those retailers that do not currently have a link to consider passing on the funds to environmental projects in Wales, not least because the all-party committee strongly suggested that since this is an environmental disbenefit, then it would be good to see proceeds going towards environmental benefit. So, under the voluntary agreement, that is the way in which we are proceeding.

[59] On the requirement under the proposed Measure, if the voluntary agreement did not work, a future Government could then utilise this legislation under the proposed Measure to deliver on the outcome of where the net proceeds went. So, you are right to say that if net proceeds were required, under this legislation, to go to environmental projects, there would be a set of legal requirements to allow that to operate. However, that would only be introduced if a future Government felt that the voluntary agreement was not appropriately successful. So, at the moment, we are working with the voluntary agreement; that is what came out of consultation. The retailers were happy to work with us on the introduction of a voluntary agreement in the knowledge that if a voluntary agreement did not work, then a statutory set of requirements would be introduced in the future.

[60] Given that we, as a Government, are working with the voluntary agreement, which has already been reported to the Assembly, the climate change legislation that gives us the power to introduce the charge will be in place in spring 2011, along with our delivery of the voluntary agreement. The powers under the proposed Measure, in terms of introducing a direction on that charge, will be on our statute book by that point—which means in the proposed Measure—but we would not be introducing those because our commitment is to the voluntary agreement.

Jane Davidson: Gobeithiaf y bydd tair elfen yn egluro hyn ichi. Y gyntaf yw bod y cytundeb gwirfoddol yn golygu y gall manwerthwyr gael trefniant gydag unrhyw sefydliad a ddymunant. Defnyddiais Cymorth Canser MacMillan fel enghraifft o sefydliad nad yw'n un amgylcheddol. Fel y dywedais, yr ydym yn annog manwerthwyr nad oes ganddynt gyswllt ar hyn o bryd i ystyried trosglwyddo'r arian i brosiectau amgylcheddol yng Nghymru, i raddau am i'r pwyllgor hollbleidiol awgrymu'n gryf, gan fod hyn yn anfantais amgylcheddol, y byddai'n dda gweld yr enillion yn cyfrannu at fudd amgylcheddol. Felly, o dan y cytundeb gwirfoddol, dyna sut yr ydym yn symud ymlaen.

O ran y gofyniad o dan y Mesur arfaethedig, pe na bai'r cytundeb gwirfoddol yn gweithio, gallai Llywodraeth yn y dyfodol wedyn ddefnyddio'r ddeddfwriaeth hon o dan y Mesur arfaethedig i weithredu o ran ble mae'r enillion net yn mynd. Felly, yr ydych yn iawn i ddweud, pe bai'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth hon i'r enillion net fynd i brosiectau amgylcheddol, y byddai set o ofynion cyfreithiol i ganiatáu i hynny weithredu. Fodd bynnag, ni châi hynny ei gyflwyno ond pe bai Llywodraeth yn y dyfodol yn teimlo nad oedd y cytundeb gwirfoddol yn ddigon llwyddiannus. Felly, ar hyn o bryd, yr ydym yn gweithio gyda'r cytundeb gwirfoddol, dyna oedd ffrwyth yr ymgynghori. Yr oedd y manwerthwyr yn hapus i weithio gyda ni i gyflwyno cytundeb gwirfoddol gan wybod, pe na bai cytundeb gwirfoddol yn gweithio, y câi set statudol o ofynion eu cyflwyno yn y dyfodol.

O gofio ein bod, fel Llywodraeth, yn gweithio gyda'r cytundeb gwirfoddol, y rhoddwyd adroddiad arno eisoes i'r Cynulliad, bydd y ddeddfwriaeth newid yn yr hinsawdd sy'n rhoi inni'r pŵer i gyflwyno'r tâl hwn yn ei lle erbyn gwanwyn 2011, ynghyd â'r cytundeb gwirfoddol y byddwn yn ei sefydlu. Bydd y pwerau o dan y Mesur arfaethedig, o ran cyflwyno cyfarwyddyd ynglŷn â'r tâl hwnnw, ar ein llyfr statud erbyn hynny—sy'n golygu y byddant yn y Mesur arfaethedig—ond ni fyddem yn eu cyflwyno oherwydd mae ein ymrwymiad ni

So, it prepares the territory for a future Government to go down that route, if it should choose to do so.

[61] **Jonathan Morgan:** Thank you; that is clear.

[62] **Brian Gibbons:** So, just to be clear, this is essentially a carrot-and-stick approach, but you are showing them the stick even though the carrot is in operation, and they will see what the stick looks like if they do not decide to go down the carrot route.

[63] **Jane Davidson:** We have been clear throughout this process that we are happy to have a very large carrot in place, but that, in terms of dialogue with us, they need to understand that a hefty stick could be introduced by a future Government, as has been the wish of the whole Assembly, in terms of the report that was published by the policy committee.

3.20 p.m.

[64] **Kirsty Williams:** The explanatory memorandum makes great play of the experience of Ireland that having a transparent process with an obvious trail of where the money goes is crucial to getting consumers to buy into this process and accept the additional charges that they will have to pay. Obviously, in deciding whether to do more than just show retailers the big stick in deciding whether to use it or not, you will need to judge whether the fund has been working in a transparent and accountable manner. How will you set about ensuring that, under the voluntary scheme, the distribution of money will be transparent and accountable, and by what measures will you judge that? Can the Assembly judge that?

[65] **Jane Davidson:** There are two things to say on that. The first is that the requirement to publish information will apply to retailers that, in a given year, give out a certain number of bags and whose turnover is more than a certain amount. So, the larger retailers will be required to publish the information.

i'r cytundeb gwirfoddol. Felly, mae'n paratoi'r ffordd i Lywodraeth yn y dyfodol i droedio'r llwybr hwnnw, pe bai'n dewis gwneud hynny.

Jonathan Morgan: Diolch; mae hynny'n glir.

Brian Gibbons: Felly, i fod yn glir, dull abwyd a ffon yw hwn yn ei hanfod, ond yr ydych yn dangos y ffon iddynt er bod yr abwyd ar waith, a byddant yn gweld sut ffon ydyw os na fyddant yn penderfynu dilyn trefn yr abwyd.

Jane Davidson: Yr ydym wedi bod yn glir drwy'r broses hon ar ei hyd ein bod yn hapus i sefydlu abwyd mawr iawn, ond o ran eu deialog â ni, mae angen iddynt ddeall y gallai ffon drom iawn gael ei chyflwyno gan Lywodraeth yn y dyfodol, yn unol â dymuniad y Cynulliad cyfan, ar sail yr adroddiad a gafodd ei gyhoeddi gan y pwyllgor polisi.

Kirsty Williams: Mae'r memorandwm esboniadol yn sôn llawer am brofiad Iwerddon, sef bod cael proses dryloyw gyda thrywydd clar sy'n dangos i ble mae'r arian yn mynd yn hollbwysig er mwyn cael defnyddwyr i gefnogi'r broses hon a derbyn y taliadau ychwanegol y bydd rhaid iddynt eu talu. Yn amlwg, wrth benderfynu a ddylid gwneud mwy na dim ond dangos y ffon fawr i fanwerthwyr wrth benderfynu pa un i'w defnyddio ai peidio, bydd angen ichi farnu a yw'r gronfa wedi bod yn gweithio mewn ffordd dryloyw ac atebol. Sut byddwch chi'n mynd ati i sicrhau, o dan y cynllun gwirfoddol, y bydd dosbarthiad yr arian yn dryloyw ac atebol, a thrwy ba fesurau y byddwch yn barnu hynny? A all y Cynulliad farnu hynny?

Jane Davidson: Mae dau beth i'w dweud ynglŷn â hynny. Y cyntaf yw y bydd y gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth yn gymwys i fanwerthwyr sydd, mewn blwyddyn benodol, yn rhannu nifer benodedig o fagiâu ac y mae eu trosiant yn fwy na swm penodedig. Felly, bydd gofyn i'r manwerthwyr mwyaf gyhoeddi'r wybodaeth.

[66] The retailers themselves will be responsible for distributing the net proceeds from the charge, and they will be required to keep records on the use of those net proceeds. The climate change legislation that introduces the power to charge also means that retailers will be responsible.

[67] As for what you said about the Republic of Ireland, that experience has been very helpful to us in the dialogue on how to communicate effectively with the Welsh populace prior to introduction. Having spoken to people in Ireland about their scheme, one of the interesting elements is that consumers do not want to see retailers benefiting directly from the charge. They do not want to see retailers charging and then keeping that money. That is why it is important that, under the voluntary scheme, the money will be passed on to worthwhile projects. The jury is far less decided on the nature of the projects, which is why I am absolutely confident that people will be content to support Macmillan—to use an example that is being undertaken by at least one retailer at the moment—on the back of a charge as a good outcome.

[68] **Kirsty Williams:** On the reports that retailers are going to keep the charges that they will levy and on the money that they will distribute, who will look at them? Who will they report to? Will they report to you, the Minister? Will they report to members of the general public? How will that work in reality? It sounds fine in theory, sitting in this committee room, but, as for the reality of making it transparent and accountable, can you explain how that reporting mechanism will work?

[69] **Jane Davidson:** I think that that is one for you, Prys.

[70] **Mr Davies:** The proposed regulations under the Climate Change Act will set out the arrangements for publishing information in more detail, and they will be consulted on in early summer probably. They will contain much more information about the practical implementation of that particular element.

Y manwerthwyr eu hunain fydd yn gyfrifol am ddosbarthu'r enillion net o'r tâl, a bydd gofyn iddynt gadw cofnodion am y ffordd y defnyddiwyd yr enillion net hynny. Mae'r ddeddfwriaeth newid yn yr hinsawdd sy'n cyflwyno'r pŵer i godi tâl hefyd yn golygu mai'r manwerthwyr fydd yn gyfrifol.

O ran yr hyn a ddywedasoich am Weriniaeth Iwerddon, mae'r profiad hwnnw wedi bod yn fuddiol iawn inni yn y ddeialog am sut i gyfathrebu'n effeithiol â phoblogaeth Cymru cyn cyflwyno'r cynllun. Ar ôl siarad â phobl yn Iwerddon am eu cynllun, un o'r elfennau diddorol yw nad yw defnyddwyr am weld manwerthwyr yn elwa'n uniongyrchol o'r tâl. Nid ydynt am weld manwerthwyr yn codi tân ac yna'n cadw'r arian hwnnw. Dyna pam y mae'n bwysig, o dan y cynllun gwirfoddol, y bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i brosiectau gwerth chweil. Nid yw pobl agos mor bendant ynglŷn â natur y prosiectau, a dyna pam yr wyf yn gwbl hyderus y bydd pobl yn hapus i gefnogi Macmillan—i ddefnyddio enghraifft sydd ar waith gan o leiaf un adwerthwr ar hyn o bryd—yn sgil codi tâl fel canlyniad da.

Kirsty Williams: Ynglŷn â'r adroddiadau fod manwerthwyr yn mynd i gadw'r taliadau y byddant yn eu codi ac ynglŷn â'r arian y byddant yn ei ddosbarthu, pwy fydd yn edrych arnynt? I bwy y byddant yn adrodd? A fyddant yn adrodd i chi, y Gweinidog? A fyddant yn adrodd i aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol? Sut bydd hynny'n gweithio mewn realiti? Mae'n swnio'n iawn mewn theori, wrth eistedd yn yr ystafell bwyllgor hon, ond, o ran y realiti o'i wneud yn dryloyw ac atebol, a allwch egluro sut y bydd y mecanwaith adrodd hwnnw'n gweithio?

Jane Davidson: Yr wyf yn credu mai un i chi yw hwnnw, Prys.

Mr Davies: Bydd y rheoliadau arfaethedig o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn nodi'r trefniadau i gyhoeddi gwybodaeth mewn mwy o fanylder, a byddir yn ymgynghori yn eu cylch yn gynnar yn yr haf, mwy na thebyg. Byddant yn cynnwys llawer mwy o wybodaeth am weithrediad ymarferol yr elfen neilltuol honno.

[71] As for who will be responsible for enforcing or looking at these in more detail, we anticipate that local authorities will be the enforcement authorities in ensuring that retailers comply with the duties set out under the Climate Change Act regulations.

[72] **Kirsty Williams:** Have you told them that this is what they will be doing?

[73] **Mr Davies:** This will be set out in forthcoming consultation on the regulations under the Climate Change Act.

[74] **Brian Gibbons:** Did I not see somewhere—I cannot find it just now—in looking at the cost implications, that the voluntary column had a zero in it, which means that there would be no cost? Now you are telling Kirsty that local authorities are going to incur a cost. I cannot find it, and maybe I am incorrectly interpreting the table.

[75] **Mr Davies:** To come back specifically on that, the question that Kirsty Williams asked is about the charge under the regulations under the Climate Change Act. The columns that you were looking at in the RIA for the proposed Measure relate to a different issue. They do not relate to the proposals to introduce regulations under the Climate Change Act; they relate specifically to the costs and benefits of the provision in the proposed Measure, which is different from the costs and benefits related to the provisions under the Climate Change Act.

[76] **Jane Davidson:** The issue is that we are trying to put as little burden as possible on the retailers in the context of the voluntary agreement. However, if the voluntary agreement were to fail, a number of accounting mechanisms would be needed to ensure proper accountability. Therefore, the direction that would come through under this proposed Measure would require another set of arrangements.

[77] **Brian Gibbons:** How would you know that a voluntary agreement was failing?

O ran pwy fydd yn gyfrifol am orfodi'r rhain neu am edrych arnynt yn fanylach, yr ydym yn rhagweld mai'r awdurdodau lleol fydd yr awdurdodau gorfodi, yn sicrhau y bydd manwerthwyr yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a bennir o dan reoliadau'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd.

Kirsty Williams: A ydych wedi dweud wrthynt mai dyma y byddant yn ei wneud?

Mr Davies: Caiff hyn ei nodi yn yr ymgynghoriad sydd ar fin cael ei gynnal ynghylch y rheoliadau o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd.

Brian Gibbons: Oni welais yn rhywle—ni allaf ddod o hyd iddo y funud hon—wrth edrych ar y goblygiadau cost, fod y golofn wirfoddol a sero ynndo, sy'n golygu na fyddai unrhyw gost? Yn awr yr ydych yn dweud wrth Kirsty y bydd yr awdurdodau lleol yn wynebu cost. Ni allaf ddod o hyd iddo, ac efallai fy mod yn dehongli'r tabl yn anghywir.

Mr Davies: I ddod yn ôl yn benodol ar hynny, mae a wnelo'r cwestiwn a ofynnodd Kirsty Williams â'r tâl o dan y rheoliadau o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Mae a wnelo'r colofnau yr ydych chi'n edrych arnynt yn yr asesiad effaith rheoleiddiol i'r Mesur arfaethedig â mater gwahanol. Nid oes a wnelont â'r cynigion i gyflwyno rheoliadau o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd; mae a wnelont yn benodol â chostau a buddion y ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig, sy'n wahanol i'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd.

Jane Davidson: Y mater dan sylw yw ein bod yn ceisio rhoi cyn lleied â phosibl o faich ar fanwerthwyr yng nghyd-destun y cytundeb gwirfoddol. Fodd bynnag, pe bai'r cytundeb gwirfoddol yn methu, byddai angen nifer o fecanweithiau cyfrifo i sicrhau atebolrwydd priodol. Felly, byddai angen set arall o drefniadau ar gyfer y cyfarwyddyd a ddeuai drwodd o dan y Mesur arfaethedig hwn.

Brian Gibbons: Sut y byddech yn gwybod bod cytundeb gwirfoddol yn methu?

[78] **Jane Davidson:** That will form a part of the engagement that we will have with the voluntary sector over what a successful voluntary agreement looks like. Any future Government will need to determine whether retailers have participated appropriately to determine whether it wishes to introduce the direction under this proposed Measure. The power would be there in legislation for a future Government to use, or not to use.

Jane Davidson: Bydd hynny'n rhan o'r ymwneud a gawn â'r sector gwirfoddol ynglŷn â phriod ffurf cytundeb gwirfoddol llwyddiannus. Bydd angen i unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol benderfynu a yw manwerthwyr wedi cymryd rhan yn briodol er mwyn penderfynu a yw am gyflwyno cyfarwyddyd o dan y Mesur arfaethedig hwn. Byddai'r pŵer yno yn y ddeddfwriaeth i Lywodraeth yn y dyfodol ei ddefnyddio, neu i beidio'i ddefnyddio.

[79] **Brian Gibbons:** The last column with the heading 'voluntary' on page 43, has nothing in it, as does the do-nothing column, obviously, but the two middle columns have a cost. The voluntary option cannot cost nothing if someone has to monitor compliance.

Brian Gibbons: Mae'r golofn olaf sydd â'r pennawd 'gwirfoddol' ar dudalen 43 a dim ynddi, ac felly hefyd y golofn gwneud dim, wrth gwrs, ond mae cost i'r ddwy golofn ganol. Ni all yr opsiwn gwirfoddol gostio dim os oes rhywun yn gorfod monitro a yw manwerthwyr yn cydymffurfio.

[80] **Kirsty Williams:** Compliance relates to a different set of legislation, and not this particular piece. Ultimately, it is much of a muchness for the person who has to do the monitoring, but, for our purposes, it is a different piece of legislation.

Kirsty Williams: Mae a wnelo cydymffurfio â set wahanol o ddeddfwriaeth, nid y darn neilltuol hwn. Yn y pen draw, nid oes fawr o ddewis rhyngddynt i'r sawl sy'n gorfod gwneud y monitro, ond, i'n dibenion i, mae'n ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth.

[81] **Jenny Randerson:** Jonathan is next, then Christine. People are queuing up to ask questions on this issue.

Jenny Randerson: Jonathan sydd nesaf, yna Christine. Mae pobl yn ciwio i ofyn cwestiynau ar y mater hwn.

[82] **Jonathan Morgan:** I know that it is my turn next, so perhaps I should wait, but something is bothering me a little. I can understand the need for the carrot-and-stick approaches and the wish for voluntary arrangements to work, and I agree that some very good causes are supported by retailers voluntarily passing on the net receipts of what they raise from charging for carrier bags. What concerns me is how you have drafted this legislation. If a future Government decided to use the stick approach and introduce the regulation, this legislation will mean that it cannot include new retailers donating to charitable organisations, because the list of causes has been limited to environmental, educational, or recreational activities relating to the matters specified in the proposed paragraphs 4A(4)(a), (b) and (c). Why have you limited it in that way? I understand the need for voluntary arrangements, but I do not see why a charitable organisation in the future should lose out because a future Government decides

Jonathan Morgan: Gwn mai fy nhro i sydd nesaf, felly efallai y dylwn aros, ond mae rhywbeth yn fy mhoeni braidd. Gallaf ddeall yr angen am y dulliau abwyd a ffon a'r awydd i'r trefniadau gwirfoddol weithio, ac yr wyf yn cytuno bod rhai achosion da iawn yn cael cefnogaeth drwy i fanwerthwyr drosglwyddo iddynt yn wirfoddol dderbyniadau net yr hyn y maent yn ei godi drwy godi tâl am fagiau siopa untro. Yr hyn sy'n fy mhoeni yw'r ffordd yr ydym wedi drafftio'r ddeddfwriaeth hon. Pe bai Llywodraeth yn y dyfodol yn penderfynu defnyddio'r ffon a chyflwyno'r rheoliad, bydd y ddeddfwriaeth hon yn golygu na all gynnwys manwerthwyr newydd yn rhoi i fudiadau elusennol, oherwydd fod y rhestr o achosion wedi cael ei chyfyngu i weithgareddau amgylcheddol, addysgol neu adloniadol y mae a wnelont â'r materion a bennwyd ym mharagraffau arfaethedig 4A(4)(a), (b) ac (c). Pam ydych chi wedi'i gyfyngu felly? Yr wyf yn deall yr angen am drefniadau gwirfoddol, ond ni welaf pam y

to invoke a regulation based on this and completely restricts where the money will go. I am surprised that you want it to be that limiting.

[83] **Jane Davidson:** There are two points there. What I have been doing is very carefully carrying out the will of the Assembly. The Assembly was very clear when it supported the committee report that suggested that the direction should operate in favour of environmental projects, because single-use bags were an environmental disbenefit. As a Government, we were happy to accept that recommendation from an all-party report of the Assembly, so we have included that. My understanding is that similar arrangements operate in Ireland, as regards environmental benefits. However, retailers working in a voluntary scheme have the opportunity to direct provision elsewhere, by their own choice. That is a strong incentive, or a big carrot, in the voluntary scheme.

3.30 p.m.

[84] **Christine Chapman:** We have been talking a lot about carrots and sticks today, but is it possible for people to avoid the system? It is like waste: sometimes, if disposing of it is seen as being too punitive and about collecting money, people end up throwing their waste into a river to avoid the charges. So, I am concerned. Has this been thought through? You talk about a voluntary scheme now but, in the future, you could come down harder on small retailers. Could they do things to avoid being charged?

[85] **Jane Davidson:** All retailers will be covered by the scheme, but we are talking about only very small amounts of money. For example, small retailers might use a number of plastic bags that did not exceed 100 in a year. They might wish to participate with others to ensure that the money raised went to a charitable cause, perhaps a local one. It is also important to say that the opportunities for the wide level of engagement under the voluntary scheme would not exist under a

dylai mudiad elusennol yn y dyfodol fod ar ei gollod gan fod Llywodraeth yn y dyfodol yn penderfynu galw rheoliad seiliedig ar hyn i rym a chyfyngu'n llwyr ar ble y bydd yr arian yn mynd. Yr wyf yn synnu eich bod am iddo fod mor gaeth â hynny.

Jane Davidson: Mae dau bwynt yn hynny. Yr hyn y bŷm yn ei wneud yw gwireddu ewyllys y Cynulliad yn ofalus iawn. Yr oedd y Cynulliad yn glir iawn pan gefnogodd yr adroddiad pwyllgor a awgrymai y dylai'r cyfarwyddyd weithredu o blaid prosiectau amgylcheddol, gan mai anfantais amgylcheddol yw bagiau siopa untro. Fel Llywodraeth, yr oeddem yn hapus iawn i dderbyn yr argymhelliad hwnnw o adroddiad hollbleidiol gan y Cynulliad, felly yr ydym wedi cynnwys hynny. Fe nealltwriaeth i yw bod trefniadau cyffelyb ar waith yn Iwerddon, o safbwynt buddion amgylcheddol. Fodd bynnag, mae gan fanwerthwyr sy'n gweithio o fewn cynllun gwirfoddol y cyfle i gyfeirio'r ddarpariaeth i rywle arall, drwy eu dewis eu hunain. Mae hynny'n gymhelliad cryf, neu'n abwyd mawr, yn y cynllun gwirfoddol.

Christine Chapman: Yr ydym wedi siarad llawer am abwydod a ffyn heddiw, ond a yw'n bosibl i bobl osgoi'r system? Mae'r un fath â gwastraff: weithiau, os yw'n ymddangos bod ei waredu yn ormod o gosb ac mai casglu arian yw'r nod, mae pobl yn mynd ati i daflu eu gwastraff i'r afon i osgoi'r taliadau. Felly, yr wyf yn bryderus. A ydych wedi meddwl digon am hyn? Yr ydych yn sôn am gynllun gwirfoddol yn awr ond, yn y dyfodol, gallech fod yn llymach gyda manwerthwyr bach. A allent gymryd camau i osgoi wynebu tâl?

Jane Davidson: Bydd pob manwerthwr yn cael ei gwmpasu gan y cynllun, ond nid ydym ond yn siarad am symiau bach iawn o arian. Er enghraifft, efallai y byddai manwerthwyr bach yn defnyddio nifer o fapiau plastig nad yw'n fwy na 100 y flwyddyn. Efallai y byddent am gymryd rhan gydag eraill i sicrhau bod yr arian a gâi ei godi yn mynd i achos elusennol, un lleol efallai. Mae hefyd yn bwysig dweud na fyddai'r cyfleoedd ar gyfer y lefel eang o

statutory scheme, and this might also be helpful to Jonathan with his question. That is because we would have to ensure that any provision for a statutory scheme came within the competence of the National Assembly in matters 6.1, 6.3, 6.4, 5.18 and 16.1 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006. I do not know whether Nia wants to add anything on this, but we would be circumscribed by a statutory scheme to ensure that the area to which we direct funding comes within the competence of the National Assembly. So, this is a further opportunity for retailers to participate fully in the voluntary scheme.

[86] **Jenny Randerson:** Let us move on to the rest of Kirsty's questions.

[87] **Kirsty Williams:** In the regulatory impact assessment of the proposed Measure, why are the estimates of the costs to the retailers more conservative—and you used the word 'conservative'—than the figures included in the Scottish regulatory impact assessment for similar legislation? Finally, have you also considered requiring retailers to pass on a minimum percentage of the money raised from the sale of each carrier bag to good causes, rather than the whole of it?

[88] **Jane Davidson:** In the context of the Scottish experience, we are not comparing like with like. The cost estimates in the Scottish regulatory impact assessment were based on the assumption that retailers would need to keep a record and then send that return to local authorities. So, there was a cost for the retailers and a cost associated with the administrative function of local authorities receiving and recording the returns. Given that the regulations under the Climate Change Act already require the keeping and publishing of records, we have made an assumption that the additional cost to retailers associated with making a return would be lower in Wales.

[89] **Kirsty Williams:** So, for this committee to get a comprehensive picture of how this will work in reality and of the costs associated with delivering this policy, we need to take into consideration the figures

ymwneud o dan y cynllun gwirfoddol yn bodoli o dan gynllun statudol, a gallai hynny fod o gymorth hefyd i Jonathan gyda'i gwestiwn ef. Y rheswm am hynny yw bod rhaid inni sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth am gynllun statudol yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol ym materion 6.1, 6.3, 6.4, 5.18 ac 16.1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ni wn a yw Nia am ychwanegu unrhyw beth ar hyn, ond byddai rhaid inni gyda chynllun statudol sicrhau bod y maes yr ydym yn cyfeirio cyllid iddo yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Felly, mae hyn yn gyfle pellach i fanwerthwyr gymryd rhan yn llawn yn y cynllun gwirfoddol.

Jenny Randerson: Gadewch inni symud ymlaen at weddill cwestiynau Kirsty.

Kirsty Williams: Yn yr asesiad o effaith rheoleiddiol y Mesur arfaethedig, pam mae'r amcangyfrifon o'r costau i'r manwerthwyr yn fwy ceidwadol—ac fe ddefnyddioch chi'r gair 'ceidwadol'—na'r ffigurau a gynhwyswyd yn asesiad effaith rheoleiddiol yr Alban yng nghyswllt deddfwriaeth debyg? Yn olaf, a ydych hefyd wedi ystyried ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr drosglwyddo canran leiafswm o'r arian a godir o werthiant pob bag siopa untro i achosion da, yn hytrach na'r swm cyfan?

Jane Davidson: Yng nghyd-destun profiad yr Alban, nid ydym yn cymharu tebyg â'i debyg. Seiliwyd yr amcangyfrifon cost yn asesiad effaith rheoleiddiol yr Alban ar y rhagdybiaeth y byddai angen i fanwerthwyr gadw cofnod ac anfon y datganiad hwnnw wedyn at yr awdurdodau lleol. Felly, yr oedd cost i'r manwerthwyr a chost yn gysylltiedig â swyddogaeth weinyddol yr awdurdodau lleol yn derbyn ac yn cofnodi'r datganiadau. O gofio bod y rheoliadau o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd eisoes yn ei gwneud yn ofynnol cadw a chyhoeddi cofnodion, yr ydym wedi rhagdybio y byddai'r gost ychwanegol i fanwerthwyr yn gysylltiedig â chreu datganiad yn is yng Nghymru.

Kirsty Williams: Felly, er mwyn i'r pwyllgor hwn gael darlun cynhwysfawr o sut y bydd hyn yn gweithio mewn realiti ac o'r costau yn gysylltiedig â rhoi'r polisi hwn ar waith, mae angen inni ystyried y ffigurau

contained in this regulatory impact assessment as well as any regulatory impact assessments for regulations made under the Climate Change Act.

[90] **Jane Davidson:** Well, this committee can consider anything that it wants to.

[91] **Kirsty Williams:** I know, but I ask you the question because it seems that there is such a huge crossover between the proposed Measure and the Climate Change Act that, if we want to have a complete picture, we have to bear that in mind. On a number of occasions this afternoon, you have referred to a different Act. ‘That does not come up in the explanatory memorandum because it belongs to the Climate Change Act’, or ‘That cost does not show up in this regulatory impact assessment because that part of it belongs to the Climate Change Act’. Right, I understand what is going on now.

[92] **Jane Davidson:** We will be undertaking a consultation on the Climate Change Act aspects, namely the delivery of the requirement to charge in Wales and what constitutes a single-use carrier bag for the purposes of the legislation, and that will start before the summer recess.

[93] **Jonathan Morgan:** I will be brief with my next set of questions, because the Minister has covered questions 16, 17 and 18 in her previous answers, so I am satisfied with that. On the potential consequences of the legislation, many organisation currently benefit from the significant number of carrier bags charged for in our supermarkets, but, over time, as the number of carrier bags sold diminishes—hopefully, because we want to try to reduce the reliance on carrier bags—the amount of money available to those organisations will also diminish. Has the Government had any discussions with the voluntary sector about the potentially negative financial impacts that it will encounter as a result of the consequences of this legislation? If so, what was the nature of those conversations?

[94] **Jane Davidson:** Some Members have made the assumption that there will be a

sy'n gynwysedig yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn ogystal ag unrhyw asesiadau effaith rheoleiddiol a wneir o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd.

Jane Davidson: Wel, gall y pwyllgor hwn ystyried unrhyw beth y mae'n ei ddymuno.

Kirsty Williams: Gwn hynny, ond yr wyf yn gofyn y cwestiwn ichi oherwydd mae'n ymddangos bod gorgyffwrdd mor enfawr rhwng y Mesur arfaethedig a'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd fel bod rhaid inni gadw hynny mewn cof, os ydym am gael darlun llawn. Droeon y prynhawn yma, yr ydych wedi cyfeirio at Ddeddf wahanol. ‘Nid yw hynny’n codi yn y memorandwm esboniadol gan ei fod yn perthyn i'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd’, neu ‘Nid yw'r gost honno'n ymddangos yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn gan fod y rhan honno ohono yn perthyn i'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd’. Iawn, yr wyf yn deall yr hyn sy'n digwydd yn awr.

Jane Davidson: Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ynghylch agweddau'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd, sef rhoi ar waith y gofyniad i godi tâl yng Nghymru a beth sy'n cael ei ystyried yn fag siopa untro at ddibenion y ddeddfwriaeth, a bydd hynny'n dechrau cyn toriad yr haf.

Jonathan Morgan: Byddaf yn fyr gyda'm set nesaf o gwestiynau, oherwydd mae'r Gweinidog wedi ymdrin â chwestiynau 16, 17 a 18 yn ei hatebion blaenorol, felly yr wyf yn fodlon â hynny. O ran canlyniadau posibl y ddeddfwriaeth, mae llawer o sefydliadau yn elwa ar hyn o bryd o'r nifer sylweddol o fagiau siopa y codir tâl amdanynt yn ein huwchfarchnadoedd, ond, dros amser, wrth i'r nifer o fagiau siopa a werthir ostwng—a hynny, gobeithio, am ein bod yn ceisio lleihau ein dibyniaeth ar fagiau siopa untro—bydd y swm o arian a fydd ar gael i'r sefydliadau hynny hefyd yn gostwng. A yw'r Llywodraeth wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r sector gwirfoddol ynglŷn â'r effeithiau ariannol negyddol posibl y bydd yn eu hwynebu yn sgil canlyniadau'r ddeddfwriaeth hon? Os felly, beth oedd natur y sgysiau hynny?

Jane Davidson: Mae rhai Aelodau wedi rhagdybio y bydd cyfraniad mawr a swm

major contribution and an increasing amount of funding for the environmental voluntary sector as a result of the introduction of this charge, but that is misconceived. What we aim to do with this has nothing to do with introducing a new regular funding stream at all, which is the reason I am coming to you to discuss a proposed Measure on waste. There will be financial opportunities if people continue to purchase single-use carrier bags, but if the charge is successful, as we hope it will be—and it has been elsewhere—there should be a continuing decrease in the amounts of money collected from the charge on carrier bags. So, we see it much more as creating some opportunities for additional funding, but not in any way as a long-term revenue stream.

[95] **Jonathan Morgan:** It is very handy for the Minister to repeat in her answer what I said in my question, but I will ask it again. Has the Government had any conversations at all with the voluntary sector about the potential financial consequences of a long-term reduction—or even a short-term one, but certainly over time—in the amount made available to it through carrier bag charges? As she said, one would hope that there will be less reliance on carrier bags, but has any impact assessment been undertaken of the financial consequences for the voluntary sector, which currently benefits from the money that it receives from those carrier bag charges?

[96] **Jane Davidson:** At the moment, only relatively small contributions go to the voluntary sector from those retailers who charge for bags. We have been clear in our engagement with the voluntary sector, through the workshops that were established under the Climate Change Act on single-use carrier bag charging, and also in my regular dealings, as I have six-monthly meetings with the voluntary sector, and so I do not think that the voluntary sector has any expectation of a long-term regular revenue funding stream from this initiative. Environmental organisations in the voluntary sector strongly support the initiative because they think that it is good policy. If, as a result of good policy, additional financial contributions can help with good causes in the environmental field, I would have thought that we could all

Bethan Jenkins: Yr hyn yr wyf yn ceisio'i ddweud yw, oherwydd yr ymgynghorwyd â nhw, y byddid yn cymryd mai dyna eu hymgynghoriad nhw, ond os gwnaiff y Mesur arfaethedig newid mewn unrhyw ffordd cyn iddo gael ei basio, pa fewnbwn a fyddai ganddynt wedyn i'r broses? Dyna'r hyn nad wyf yn glir yn ei gylch.

Mr Dunstan: Byddai'r ymgynghori, o dan adran 7(2), ynghylch y rheoliadau a gâi eu gwneud o dan y pŵer. Ie?

Jane Davidson: Dim ond ynghylch y rheoliadau.

Mr Dunstan: Dim ond ynghylch y rheoliadau ac nid ynghylch y Mesur ei hun.

Bethan Jenkins: Iawn.

Jane Davidson: Dyna'r pwynt. Felly, pe caem ymgynghoriad ynghylch y rheoliadau cyn i'r Mesur arfaethedig gael ei basio a bod y Mesur arfaethedig yn cael ei basio wedyn, byddid yn barnu bod hwnnw'n ymgynghoriad cyfreithiol, dilys, priodol ynghylch y rheoliadau, ond dim ond ynghylch yr agwedd honno. Ni fyddai'n gael ei ystyried yn ymgynghoriad cyfreithiol llawn nac unrhyw beth arall.

Bethan Jenkins: A gaf fi ofyn cwestiwn ynglŷn â'r ymgynghoreion statudol? Sut y digwyddodd fod Asiantaeth yr Amgylchedd a phob awdurdod lleol wedi cael eu cynnwys fel ymgynghoreion statudol? A wnaethoch

organisations or bodies? What is the reasoning behind the choice of those particular bodies?

[160] **Mr Dunstan:** As the Minister said in response to the previous question, the Environment Agency and local authorities were identified as key stakeholders that would have a particular interest in those regulations. So, the Government wants to go further by making them statutory consultees. There is a final provision in section 7 that allows Welsh Ministers to consult such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate, in order to make sure that other bodies are considered for consultation on those regulations.

[161] **Bethan Jenkins:** I think that I understand that now. Thanks.

[162] **Jenny Randerson:** Brian wants to ask a question.

[163] **Brian Gibbons:** I will go back to Bethan's point because I have the same question scheduled to be asked later on, so I will raise the point now rather than repeat it later. When we see draft regulations being published under section 3, will there be a consultation on those draft regulations?

[164] **Mr Dunstan:** Yes.

[165] **Jane Davidson:** There is always a consultation.

[166] **Brian Gibbons:** Exactly. That is where this is difficult to follow, because the wording is quite turgid or difficult. What you are saying is that once the relevant draft regulations are published, there will be a formal consultation on those draft regulations as usual. So, this will not mean, as Bethan said, that these regulations will be deemed not to have been consulted on, even in advance of them being published.

[167] **Jane Davidson:** Yes, it is the other way around, which is that if you consult on the regulations before the proposed Measure

ystyried unrhyw sefydliadau neu gyrff eraill? Beth yw'r rhesymeg y tu ôl i ddewis y cyrff neilltuol hynny?

Mr Dunstan: Fel y dywedodd y Gweinidog mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol, nodwyd Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol fel rhanddeiliaid allweddol y byddai ganddynt fuddiant neilltuol yn y rheoliadau hynny. Felly, mae'r Llywodraeth am fynd ymhellach drwy eu gwneud yn ymgynghoreion statudol. Mae darpariaeth olaf yn adran 7 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau eraill ag y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol, er mwyn gwneud yn siŵr fod cyrff eraill yn cael eu hystyried i ymgynghori â nhw ynghylch y rheoliadau hynny.

Bethan Jenkins: Credaf fy mod yn deall hynny yn awr. Diolch.

Jenny Randerson: Mae Brian am ofyn cwestiwn ichi.

Brian Gibbons: Af yn ôl at bwynt Bethan oherwydd mae'r un cwestiwn gennyf finnau, i fod i gael ei ofyn yn ddiweddarach, felly codaf y pwynt yn awr yn hytrach na'i ailadrodd yn ddiweddarach. Pan welwn y rheoliadau drafft yn cael eu cyhoeddi o dan adran 3, a fydd ymgynghoriad ynghylch y rheoliadau drafft hynny?

Mr Dunstan: Bydd.

Jane Davidson: Mae ymgynghoriad bob amser.

Brian Gibbons: Yn union. Dyna lle mae hyn yn anodd ei ddilyn, oherwydd mae'r geiriad yn bur rwysgfawr neu anodd. Yr hyn yr ydych yn ei ddweud yw, unwaith y caiff y rheoliadau drafft perthnasol eu cyhoeddi, y bydd ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y rheoliadau drafft hynny fel arfer. Felly, ni fydd hyn yn golygu, fel y dywedodd Bethan, y bydd y rheoliadau hyn yn cael eu hystyried yn rhai nad ymgynghorwyd yn eu cylch, hyd yn oed cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

Jane Davidson: Ie, y ffordd arall sy'n gywir, sef os ydych yn ymgynghori ynghylch y rheoliadau cyn i'r Mesur arfaethedig gael ei

is passed and then the proposed Measure is passed, you do not then have to consult on the same regulations again because the consultation that you have already carried out on the regulations will be legally sufficient. That is all—

[168] **Brian Gibbons:** But you are saying that regulations that are made under this proposed Measure can be consulted on before the proposed Measure becomes law.

[169] **Jane Davidson:** They can be consulted on before the proposed Measure becomes law; however, the proposed Measure would need to become law to give effect to the regulations.

[170] **Brian Gibbons:** Yes, okay; I think that I follow that.

[171] **Jenny Randerson:** The Minister might wish to write to us and provide us with reassurance. I think that you have been absolutely clear now, Minister. However, because it is the subject of some discussion here, it might be helpful to have a note on that.

[172] **Jane Davidson:** We are happy to help clarify the point for the committee.

[173] **Jenny Randerson:** Bethan, have you finished?

[174] **Bethan Jenkins:** Yes.

[175] **Kirsty Williams:** May we turn to sections 9 to 11 on landfill? Could you clarify why the Government is seeking the powers to introduce landfill bans prior to having completed the work and the consultation on the benefits and practicalities of introducing such a ban, as outlined in your explanatory memorandum?

4.10 p.m.

[176] **Jane Davidson:** There are significant lead-in times to the introduction of landfill bans. WRAP suggests a five-year lead-in time to the introduction of a ban or restriction. What we want to do, therefore, is to ensure that the proposed Measure gives us an appropriate opportunity to have the power

basio a bod y Mesur arfaethedig yn cael ei basio wedyn, nid oes rhaid wedyn ichi ymgynghori ynghylch yr un rheoliadau eto oherwydd bydd yr ymgynghori sydd eisoes wedi cael ei wneud ynghylch y rheoliadau yn ddigonol yn gyfreithiol. Dyna'r cyfan—

Brian Gibbons: Ond yr ydych yn dweud bod modd ymgynghori ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Mesur arfaethedig hwn cyn i'r Mesur arfaethedig ddod yn gyfraith.

Jane Davidson: Gellir ymgynghori yn eu cylch cyn i'r Mesur arfaethedig ddod yn gyfraith; fodd bynnag, byddai angen i'r Mesur arfaethedig ddod yn gyfraith er mwyn rhoi grym i'r rheoliadau.

Brian Gibbons: Ie, iawn; credaf fy mod yn dilyn hynny.

Jenny Randerson: Efallai yr hoffai'r Gweinidog ysgrifennu atom a rhoi sicrwydd inni. Credaf eich bod wedi bod yn hollol glir erbyn hyn, Weinidog. Fodd bynnag, gan ei fod yn destun cryn drafod yma, efallai y byddai'n dda o beth cael nodyn ar hynny.

Jane Davidson: Yr ydym yn hapus i helpu i egluro'r pwynt i'r pwyllgor.

Jenny Randerson: Bethan, ydych chi wedi gorffen?

Bethan Jenkins: Ydwyf.

Kirsty Williams: A gawn ni droi at adrannau 9 i 11 ar dirlenwi? A allech egluro pam mae'r Llywodraeth yn ceisio'r pwerau i gyflwyno gwaharddiadau ar dirlenwi cyn cwblhau'r gwaith a'r ymgynghori ynghylch manteision ac agweddau ymarferol cyflwyno gwaharddiad o'r fath, fel yr amlinellwyd yn eich memorandwm esboniadol?

Jane Davidson: Mae cyfnodau cyflwyno sylweddol cyn rhoi'r gwaharddiadau ar dirlenwi ar waith. Mae WRAP yn awgrymu cyfnod cyflwyno o bum mlynedd cyn rhoi gwaharddiad neu gyfyngiad ar waith. Yr hyn yr ydym am ei wneud, felly, yw sicrhau bod y Mesur arfaethedig yn rhoi cyfle priodol inni

to move forward to introduce the proposed bans or restrictions once the appropriate consultation has been undertaken.

i gael y pŵer i symud ymlaen i gyflwyno'r gwaharddiadau neu'r cyfyngiadau arfaethedig unwaith y mae'r ymgynghori priodol wedi cael ei gynnal.

[177] **Kirsty Williams:** Have you carried out any assessment of, or consultation on, what impact such bans would have on small and medium-sized enterprises or landfill operators, or is it too soon to do that?

Kirsty Williams: A ydych wedi gwneud unrhyw asesiad o, neu wedi ymgynghori ynghylch, pa effaith a gâi gwaharddiadau o'r fath ar gwmnïau bach a chanolig eu maint neu weithredwyr safleoedd tirlenwi, neu a yw'n rhy gynnar i wneud hynny?

[178] **Jane Davidson:** We have prepared a regulatory impact assessment—

Jane Davidson: Yr ydym wedi paratoi asesiad effaith rheoleiddiol—

[179] **Kirsty Williams:** That does not say very much, because you do not have the—

Kirsty Williams: Nid yw hynny'n dweud llawer iawn, oherwydd nid oes gennych—

[180] **Jane Davidson:** That is right, but it includes a general costs and benefits analysis.

Jane Davidson: Mae hynny'n wir, ond mae'n cynnwys dadansoddiad cost a budd cyffredinol.

[181] **Kirsty Williams:** It is even worse than 'general', I would suggest.

Kirsty Williams: Mae'n waeth hyd yn oed na 'chyffredinol', byddwn i'n awgrymu.

[182] **Jane Davidson:** It is not possible to conduct a full one until we have the response to the consultation. The important element of this, however, is to ensure that the proposed Measure gives the power to the Assembly Government to introduce the appropriate bans.

Jane Davidson: Nid yw'n bosibl cynnal un llawn nes bydd yr ymateb i'r ymgynghori gennym. Yr elfen bwysig yn hyn, fodd bynnag, yw sicrhau bod y Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno'r gwaharddiadau priodol.

[183] **Kirsty Williams:** Okay. Do you have any idea at this early stage who would be responsible for regulating any bans, and has any assessment been made of existing organisations' capacity to take on additional regulatory functions?

Kirsty Williams: Iawn. A oes gennych unrhyw syniad mor gynnar â hyn pw yfyddai'n gyfrifol am reoleiddio unrhyw waharddiadau, ac a oes unrhyw asesiad wedi cael ei wneud o allu sefydliadau presennol i ymgymryd â swyddogaethau rheoleiddio ychwanegol?

[184] **Jane Davidson:** It is likely to be the Environment Agency, because it already has important regulatory functions in relation to landfill sites. It would be logical, therefore, for the Environment Agency to have that responsibility.

Jane Davidson: Mae'n debygol mai Asiantaeth yr Amgylchedd fyddai'n gwneud hynny, oherwydd mae ganddi swyddogaethau rheoleiddio pwysig yn barod mewn perthynas â safleoedd tirlenwi. Byddai'n rhesymegol, felly, i Asiantaeth yr Amgylchedd fod â'r cyfrifoldeb hwnnw.

[185] **Kirsty Williams:** Given where we are in this process, or the development of policy in this particular area, how do you intend to address the lack of infrastructure and capacity that your Government admits currently exists in Wales to deal with any additional waste

Kirsty Williams: O ystyried lle'r ydym yn y broses hon, neu yn natblygiad polisi yn y maes neilltuol hwn, sut ydych yn bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg seilwaith a chapasiti y mae'ch Llywodraeth yn cyfaddef sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd i ddelio

that would not be sent to landfill as a result of these potential bans?

[186] **Jane Davidson:** Interestingly enough, we have been preparing a range of sector plans to go alongside the overarching strategy. There is a municipal plan, which will be published shortly; a construction and demolition plan; a collection, infrastructure and markets sector plan; and, a retail sector plan. They are all critical, and they will all be published within the next year. They are important, because we need to build new markets in the context of this delivery. There is the £26 million in additional funding that we have put in place for the anaerobic digestion project as part of the food waste and residual waste treatment procurement programmes across Wales, and an additional £9 million has come from WRAP for recycling industrial and commercial waste, again with a particular focus on food waste. Also, where the Department for the Economy and Transport is concerned, in the last 12 months, there have been 11 offers to recycling companies to the tune of £4.66 million, and forecast capital costs for those projects were nearly £30 million, with 374 new jobs and 53 jobs safeguarded. There is a huge amount of activity going on in relation to this agenda, which is necessary to address some of the infrastructure issues. The introduction of the landfill bans for targeted materials will contribute hugely to taking that agenda forward.

[187] **Kirsty Williams:** How do you know that when the consultation work carried out on behalf of the devolved Governments and DEFRA has not been completed? For the purposes of the notes, to remind me at a later stage, it seems curious to me that the Government would seek to legislate in an area where the rationale behind legislation in that area has not been fully proven, developed or worked up.

[188] **Jane Davidson:** I do not think that I could accept that description. The rationale is fully developed. In the consultation on the

ag unrhyw wastraff ychwanegol na châi ei anfon i safleoedd tirlenwi o ganlyniad i'r gwaharddiadau posibl hyn?

Jane Davidson: Yn ddiddorol ddigon, yr ydym wedi bod yn paratoi amryw o gynlluniau sector i fynd law yn llaw â'r strategaeth drosfwaol. Mae cynllun trefol, a gaiff ei gyhoeddi'n fuan; cynllun adeiladu a dymchwel; cynllun sector casglu, seilwaith a marchnadoedd; a chynllun sector manwerthu. Maent i gyd yn hollbwysig, a byddant i gyd yn cael eu cyhoeddi o fewn y flwyddyn nesaf. Maent yn bwysig, oherwydd mae angen inni feithrin marchnadoedd newydd yng nghyd-destun y gweithredu hwn. Mae gennym y £26 miliwn o arian ychwanegol yr ydym wedi'i ddarparu i'r prosiect treulio anerobig fel rhan o'r rhaglenni caffael triniaethau bwyd gwastraff a gwastraff gweddilliol ar draws Cymru, ac mae £9 miliwn ychwanegol wedi dod oddi wrth WRAP tuag at ailgylchu gwastraff diwydiannol a masnachol, eto gyda phwyslais arbennig ar wastraff bwyd. Hefyd, o safbwynt Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, yn y 12 mis diwethaf gwnaed 11 o gynigion i gwmnïau ailgylchu, gwerth £4.66 miliwn, ac yr oedd y rhagolygon am gostau cyfalaf y prosiectau hynny bron yn £30 miliwn, gyda 374 o swyddi newydd a 53 o swyddi wedi'u diogelu. Mae gweithgarwch aruthrol yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r agenda hon, sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â rhai o'r materion seilwaith. Bydd cyflwyno'r gwaharddiadau ar anfon defnyddiau sy'n cael eu targedu i safleoedd tirlenwi yn gyfraniad enfawr i symud yr agenda honno ymlaen.

Kirsty Williams: Sut ydych chi'n gwybod hynny pan nad yw'r gwaith ymgynghori sy'n cael ei gynnal ar ran y Llywodraethau datganoledig a DEFRA wedi cael ei gwblhau? At ddibenion y nodiadau, i'm hatgoffa yn ddiweddarach, mae'n ymddangos yn rhyfedd i mi y byddai'r Llywodraeth yn ceisio deddfu mewn maes lle nad yw'r sail resymegol i gyfiawnhau deddfu yn y maes hwnnw wedi cael ei phrofi'n llwyr na'i datblygu, ac nad ymhelaethwyd ar y manylion.

Jane Davidson: Nid wyf yn credu y gallwn dderbyn y disgrifiad hwnnw. Mae'r sail resymegol wedi cael ei datblygu'n llwyr. Yn

landfill ban, we are looking at the practicality of taking particular products or materials out of landfill and taking them elsewhere. The introduction of bans on certain materials will create markets for them elsewhere. We know that the rationale is fully developed. I highlighted the examples of glass and metal previously. We know that they are dealt with differently across Wales, but we also know that where they are being best dealt with in terms of recycling, markets are already being created. So, the rationale is there; what we need is to ensure that the opportunities for people to send waste to landfill are removed so that they have to think about where else to take the recycle. That way will generate new markets.

[189] **Jenny Randerson:** We now turn to Brian.

[190] **Brian Gibbons:** I think that my questions have been covered.

[191] **Jenny Randerson:** Therefore, we will move to sections 12 to 14 on the site waste management plans. Jonathan has questions on these.

[192] **Jonathan Morgan:** I have a couple of questions on this, Minister. In looking at the current legislative framework—forgive me if I have misread this—I am wondering why you require a section in the proposed Measure regarding the powers of Welsh Ministers over site waste management plans when you refer to the fact that that is provided for in section 54 of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005. Does that do something that the proposed Measure does not?

[193] **Jane Davidson:** It is always very useful to have all the provisions in the same place. You are right that, under section 54 of the Clean Neighbourhoods and Environment Act, we have the power to make regulations, which we are using, and we are about to go out to consultation on those regulations shortly. However, we do not have the power to make regulations about the fees and

yr ymgynghoriad ynghylch y gwaharddiad ar dirlenwi, yr ydym yn edrych ar ymarferoldeb tynnu cynnyrch neu ddefnyddiau neilltuol o'r system dirlenwi a mynd â nhw i rywle arall. Bydd cyflwyno gwaharddiadau ar rai defnyddiau yn creu marchnadoedd iddynt yn rhywle arall. Gwyddom fod y sail resymegol wedi cael ei datblygu'n llwyr. Tynnais sylw at wydr a metel fel enghreifftiau cyn hyn. Gwyddom yr ymdrinnir â hwy'n wahanol ar draws Cymru, ond gwyddom hefyd, lle'r ymdrinnir â hwy orau o safbwynt ailgylchu, fod marchnadoedd yn cael eu creu eisoes. Felly, mae'r sail resymegol yno, yr hyn y mae angen inni ei sicrhau yw bod y cyfleoedd i bobl anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi yn cael eu dileu fel eu bod yn gorfod meddwl i ble arall i fynd â'r deunydd eildro. Bydd gweithredu felly yn creu marchnadoedd newydd.

Jenny Randerson: Trown yn awr at Brian.

Brian Gibbons: Credaf fod fy nghwestiynau i wedi cael eu cwmpasu.

Jenny Randerson: Felly, symudwn at adrannau 12 i 14 ynglŷn â'r cynlluniau rheoli gwastraff safle. Mae gan Jonathan gwestiynau ar y rhain.

Jonathan Morgan: Mae gennyf gwpl o gwestiynau ar hyn, Weinidog. Wrth edrych ar y fframwaith deddfwriaethol presennol—maddeuwch imi os wyf wedi camddarllen hyn—yr wyf yn ceisio dyfalu pam mae angen adran arnoch yn y Mesur arfaethedig ynglŷn â phwerau Gweinidogion Cymru dros gynlluniau rheoli gwastraff safle, a chithau'n cyfeirio at y ffaith y darperir ar gyfer hynny yn adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. A yw honno'n gwneud rhywbeth nad yw'r Mesur arfaethedig yn ei wneud?

Jane Davidson: Mae bob amser yn fuddiol iawn cael y darpariaethau i gyd yn yr un lle. Yr ydych yn iawn fod gennym, o dan adran 54 o'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd, y pŵer i wneud rheoliadau—pŵer yr ydym yn ei ddefnyddio—ac yr ydym ar fin dechrau ymgynghori ynghylch y rheoliadau hynny yn fuan. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer gennym i wneud rheoliadau

charging schemes. So, the proposed waste Measure gives us the opportunity to ensure that the administrative costs of enforcing the planned regime can be offset by a charges scheme.

[194] I want to make it clear once again that this is not in any way a revenue stream. If the costs are to be offset by a charging scheme, those charges would be less than or equal to the full cost of the scheme. So, it is about making sure that the legislation will be sitting in one place and utilising the powers under section 54 and the new opportunity afforded by the proposed Measure. Nia, do you have something to add?

[195] **Ms James:** No, Minister.

[196] **Jane Davidson:** You have trained me well. [*Laughter.*]

[197] **Jonathan Morgan:** In looking at the proposed Measure, as Members have already done, reference has been made to the issue of consultation. It clearly specifies who should be consulted, particularly with regard to regulations under sections 3, 4, 5, 6 or 9, namely the Environment Agency, local authorities and any other such persons as Ministers consider appropriate. Why was a similar section on consultation with regard to site waste management plans built into this section?

[198] **Ms James:** The provision in the proposed Measure restates section 54 of the Clean Neighbourhoods and Environment Act. A specific provision in relation to consultation does not appear in section 54 and that is why it does not appear in the proposed Measure.

[199] **Jonathan Morgan:** Are you therefore prohibited from putting in a section on consultation relating to section 12 of the proposed Measure?

[200] **Ms James:** No, a provision of that nature could be added, but as the Minister has indicated, the consultation exercise on the regulations will go ahead in any case.

ynglŷn â'r ffioedd a'r cynlluniau codi tâl. Felly, mae'r Mesur gwastraff arfaethedig yn rhoi'r cyfle inni i sicrhau bod modd gwneud iawn am gostau gweinyddol gorfodi'r gyfundrefn yr ydym yn ei chynllunio drwy gynllun codi tâl.

Yr wyf am ei gwneud yn glir unwaith eto nad ffrwd refeniw yw hyn mewn unrhyw ffordd. Os yw'r costau i gael eu gwrthbwyso gan gynllun codi tâl, byddai'r taliadau hynny yn llai na chost lawn y cynllun neu'n cyfateb iddi. Felly, mater ydyw o wneud yn siŵr y bydd y ddeddfwriaeth yn eistedd mewn un lle ac yn defnyddio'r pwerau o dan adran 54 a'r cyfle newydd a roddir gan y Mesur arfaethedig. Nia, a oes gennych ryw beth i'w ychwanegu?

Ms James: Nac oes, Weinidog.

Jane Davidson: Yr ydych wedi fy hyfforddi'n dda ar hyn. [*Chwerthin.*]

Jonathan Morgan: Wrth edrych ar y Mesur arfaethedig, fel y mae'r Aelodau eisoes wedi'i wneud, cyfeiriwyd at fater ymgynghori. Mae'n pennu'n glir â phwy y dylid ymgynghori, yn enwedig o safbwynt rheoliadau o dan adrannau 3, 4, 5, 6 neu 9, sef Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol ac unrhyw bersonau eraill ag a dybir yn briodol gan y Gweinidogion. Pam y cafodd adran debyg ynghylch ymgynghori yng nghyd-destun cynlluniau rheoli gwastraff safle ei chynnwys yn yr adran hon?

Ms James: Mae'r ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig yn ailddatgan adran 54 o'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd. Nid oes darpariaeth benodol mewn perthynas ag ymgynghori yn ymddangos yn adran 54 a dyna pam nad yw'n ymddangos yn y Mesur arfaethedig.

Jonathan Morgan: A ydych felly yn cael eich gwahardd rhag cynnwys adran ar ymgynghori mewn perthynas ag adran 12 o'r Mesur arfaethedig?

Ms James: Nac ydych, gellid ychwanegu darpariaeth o'r math hwnnw, ond fel y nododd y Gweinidog, bydd yr ymarferiad ymgynghori ynghylch y rheoliadau yn mynd yn ei flaen beth bynnag.

[201] **Jonathan Morgan:** Okay. Has there been any assessment of the impact of the waste management plans on construction and demolition companies in Wales?

Jonathan Morgan: Iawn. A fu unrhyw asesiad o effaith y cynlluniau rheoli gwastraff ar gwmnïau adeiladu a dymchwel yng Nghymru?

[202] **Jane Davidson:** It is interesting because the research in England has noticed that there are benefits to carrying out site waste management plans, because they encourage waste segregation, the recycling of waste produced and the reuse of materials on site, which helps businesses that are currently facing spiralling waste management costs. So, the regulatory impact assessment for the charging provisions is part of a full regulatory impact assessment, which is a wider package of work that is being undertaken and that will go alongside the regulations. Among other things, that will specifically consider the impact on the construction and demolition sector. It is also why I mentioned that we will consult on a construction and demolition sector plan as part of the process of taking the overarching waste strategy agenda forward.

Jane Davidson: Mae'n ddiddorol oherwydd mae'r ymchwil yn Lloegr wedi sylwi bod manteision o weithredu cynlluniau rheoli gwastraff safle, oherwydd maent yn annog gwahanu gwastraff, ailgylchu'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu ac aildefnyddio defnyddiau ar y safle, sy'n helpu busnesau sy'n wynebu costau rheoli gwastraff cynyddol ar hyn o bryd. Felly, mae'r asesiad effaith rheoleiddiol o'r darpariaethau codi tâl yn rhan o asesiad effaith rheoleiddiol llawn, sy'n becyn ehangach o waith sy'n mynd rhagddo ac a fydd yn mynd law yn llaw â'r rheoliadau. Ymysg pethau eraill, bydd hynny yn ystyried yr effaith ar y sector adeiladu a dymchwel yn benodol. Dyna pam hefyd y crybwyllais y byddwn yn ymgynghori ynghylch cynllun sector adeiladu a dymchwel fel rhan o'r broses o symud yr agenda strategaeth gwastraff drosfwaol yn ei blaen.

[203] **Jonathan Morgan:** The regulatory impact assessment assumes that local authorities are most likely to be the regulators of a simple site waste management plan regime, but the Environment Agency has assumed that it will be the most likely regulator of a comprehensive site waste management plan regime. Why?

Jonathan Morgan: Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn tybio mai'r awdurdodau lleol yw'r cyrff mwyaf tebygol o fod yn rheoleiddwyr cyfundrefn syml o gynlluniau rheoli gwastraff, ond tybiai Asiantaeth yr Amgylchedd mai hi sy'n fwyaf tebygol o fod yn rheoleiddiwr ar gyfundrefn gynhwysfawr o gynlluniau rheoli gwastraff safle. Pam?

4.20 p.m.

[204] **Jane Davidson:** All that has happened in the regulatory impact assessment is that it has modelled two options for charging. It has not made an assumption; it has modelled two options for a charging scheme. One would be a simple charging scheme and the other would be a comprehensive regime. No decision has been taken about who the regulator would be, although two possible options would be local authorities or the Environment Agency. Therefore, under each option, two further scenarios have been modelled: one where the scheme is regulated by local authorities and one where the scheme is regulated by the Environment Agency. So, the regulatory impact assessment includes all four schemes and

Jane Davidson: Y cyfan sydd wedi digwydd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yw ei fod wedi modelu dau opsiwn o ran codi tâl. Nid yw wedi rhagdybio; mae wedi modelu dau opsiwn o ran cynllun codi tâl. Byddai un yn gynllun codi tâl syml a byddai'r llall yn gyfundrefn gynhwysfawr. Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud ynglŷn â phwy fyddai'r rheoleiddiwr, er mai dau opsiwn posibl fyddai'r awdurdodau lleol neu Asiantaeth yr Amgylchedd. Felly, o dan y naill opsiwn a'r llall, mae dau senario pellach wedi cael eu modelu: un lle caiff y cynllun ei reoleiddio gan yr awdurdodau lleol ac un lle caiff y cynllun ei reoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Felly, mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn cynnwys pob un o'r pedwar

modelling for the four different scenarios, two of which are under the simple scheme and two under the comprehensive scheme.

[205] **Brian Gibbons:** To be clear on the positive policy outcomes, I do not remember whether you visited the site, but you have met representatives of a company in my constituency that is involved in construction material recycling and its problem was not the recycling, but reuse, because the industry was reluctant to use the recycle. I am pleased that you have a plan, which you mentioned earlier. I made representations to you on this some 18 months ago. Since then, has the industry become much more willing to use the recycle from building sites? Secondly—again, this is something I wrote to you about from a constituency point of view—do you think that one of the impacts of these regulations will be to encourage more modular building to take place? Modular construction creates significantly less construction-site waste.

[206] **Jane Davidson:** I will ask Andy to come in in a minute. I have visited the reuse-recycling company, Derwen Construction, in your constituency. It is certainly a model for others that are looking at secondary aggregate issues. Through the delivery of our whole waste agenda, we are trying to draw attention to the opportunities to use recycled materials wherever possible, whether that is in aggregate or other areas. I am confident that the proposed waste Measure will enable us to take that forward, but it will also be a clear imperative in the overarching waste strategy, which will come out shortly. Andy, can you pick this up?

[207] **Mr Rees:** We have been working closely on both those issues with Constructing Excellence in Wales, which is the umbrella body for the entire construction industry in Wales. It has come up with proposals and ideas to try to increase the use of secondary aggregates, using pilot and certification schemes. There is reluctance among some engineers to use that material, even though it is of exactly the same standard as primary material. We can perhaps look at

cynllun a modelu ar gyfer y pedwar senario gwahanol; dau ohonynt o dan y cynllun syml a dau o dan y cynllun cynhwysfawr.

Brian Gibbons: I fod yn glir ynghylch y canlyniadau polisi cadarnhaol, ni chofiaf a wnaethoch ymweld â'r safle, ond yr ydych wedi cwrdd â chynrychiolwyr cwmni yn f'etholaeth i sy'n ymwneud ag ailgylchu defnyddiau adeiladu a'i broblem ef oedd nid yr ailgylchu, ond ailddefnyddio, oherwydd yr oedd y diwydiant yn amharod i ddefnyddio deunydd eildro. Yr wyf yn falch fod gennych gynllun, a grybwyllwyd gennych yn gynharach. Cyflwynais sylwadau ichi ar hyn ryw 18 mis yn ôl. Ers hynny, a yw'r diwydiant wedi dod yn llawer parotach i ddefnyddio deunydd eildro o safleoedd adeiladu? Yn ail—eto, mae hyn yn rhywbeth yr ysgrifennais ato yn ei gylch o safbwynt etholaeth—a ydych yn credu mai un o effeithiau'r rheoliadau hyn fydd annog rhagor o adeiladu modiwlwr? Mae adeiladau modiwlwr yn creu llawer iawn llai o wastraff safle adeiladu.

Jane Davidson: Gofynnaf i Andy ddod i mewn mewn munud. Yr wyf wedi ymweld â'r cwmni ailddefnyddio-ailgylchu, Derwen Construction, yn eich etholaeth. Mae'n sicr yn fodel i eraill sy'n edrych ar faterion agregau eilaidd. Drwy roi ein agenda wastraff ar waith drwyddi draw, yr ydym yn ceisio tynnu sylw at y cyfleoedd i ddefnyddio defnyddiau wedi'u hailgylchu lle bynnag y mae hynny'n bosibl, boed hynny ym maes agregau neu feysydd eraill. Yr wyf yn hyderus y bydd y Mesur gwastraff arfaethedig yn ein galluogi i symud hynny ymlaen, ond bydd hefyd yn orfodaeth glir yn y strategaeth wastraff drosfwaol, a gaiff ei chyhoeddi'n fuan. Andy, a allwch chi ymhelaethu ar hyn?

Mr Rees: Yr ydym wedi bod yn gweithio'n agos ar y naill a'r llall o'r materion hyn gydag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, sef y corff ymbarél i'r diwydiant adeiladu yn ei grynsyth yng Nghymru. Mae wedi dyfeisio cynigion a syniadau i geisio cynyddu'r defnydd o agregau eilaidd, gan ddefnyddio cynlluniau peilot a chynlluniau ardystio. Mae amharodrwydd ymysg rhai peirianwyr i ddefnyddio'r defnyddiau hynny, er eu bod o'r un safon yn union â defnyddiau

the public sector procurement side of things, so that when public buildings are procured, we can ensure that the tender specifications include a requirement on the use of secondary aggregate. Modular buildings will be looked at as part of the construction and demolition sector plan. Constructing Excellence in Wales has some ideas on that and it has people whom it can work with to look at that, which is a good way to reduce waste on site, if the modules are built off site to certain specifications.

[208] **Jane Davidson:** It also contributes to the low-carbon building agenda.

[209] **Brian Gibbons:** That is excellent.

[210] **Jenny Randerson:** There is one last question from me, Minister. The proposed Measure restates, with some modification, the existing provisions of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 to ensure that the relevant legal provisions in relation to site waste management plans are codified in one piece of legislation. Can you explain how the provisions of the Clean Neighbourhoods and Environment Act have been modified and why it was considered appropriate to do that rather than simply to add to the powers of the 2005 Act?

[211] **Jane Davidson:** I will pass that one over to Nia.

[212] **Ms James:** The four modifications relate to: the conferral of the regulation-making power on the Welsh Ministers; a new power in the regulations to require the making of the fees and charges scheme; a transitional provision to link the site waste management plan regulations, made under the Clean Neighbourhoods and Environment Act, to the Measure's provisions; and a requirement on the enforcement authority to have regard to guidance issued by the Welsh Ministers.

[213] The Minister has already mentioned that one reason for re-statement is the benefits that are brought by having all the legislation on site waste management plans in

cynradd. Efallai y gallwn edrych ar ochr gaffael y sector cyhoeddus, fel y gallwn sicrhau, pan fydd adeiladau cyhoeddus yn cael eu caffael, fod y manylebau tendro yn cynnwys gofyniad i ddefnyddio agregau eilaidd. Byddwn yn edrych ar adeiladau modiwlwr fel rhan o'r cynllun sector adeiladu a dymchwel. Mae gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru rai syniadau ynglŷn â hynny ac mae ganddo bobl y gall weithio gyda nhw i edrych ar hynny, sy'n ffordd dda o leihau gwastraff ar y safle, os yw'r modiwlau'n cael eu hadeiladu oddi ar y safle yn unol â manylebau penodol.

Jane Davidson: Mae hefyd yn cyfrannu at yr agenda adeiladu carbon isel.

Brian Gibbons: Mae hynny'n rhagorol.

Jenny Randerson: Mae gennyf un cwestiwn olaf, Weinidog. Mae'r Mesur arfaethedig yn ailddatgan, gyda rhai addasiadau, ddarpariaethau presennol Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i sicrhau bod y darpariaethau cyfreithiol perthnasol mewn perthynas â chynlluniau rheoli gwastraff safle yn cael eu codeiddio mewn un darn o ddeddfwriaeth. A allwch egluro sut mae darpariaethau'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd wedi cael eu haddasu a pham yr ystyriwyd ei bod yn briodol gwneud hynny yn hytrach na dim ond ychwanegu at bwerau Deddf 2005?

Jane Davidson: Trosglwyddaf y cwestiwn hwnnw i Nia.

Ms James: Mae a wnelo'r pedwar addasiad â: trosglwyddo'r pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru; pŵer newydd yn y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol llunio cynllun ffioedd a thaliadau; darpariaeth dros dro i gysylltu'r rheoliadau ynglŷn â chynlluniau rheoli gwastraff safle, a wnaed o dan y Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd, â darpariaethau'r Mesur; a gofyniad ar yr awdurdod gorfodi i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi crybwyll mai un rheswm am yr ailddatgan yw'r manteision a ddaw yn sgil cael yr holl ddeddfwriaeth ynglŷn â chynlluniau rheoli gwastraff safle

Wales in one place, but there is also a secondary benefit in relation to having more bilingual law in Wales.

[214] The second reason for the re-statement approach relates to flexibility in relation to penalties. That is important because of how the exceptions found in Schedule 5 to the Government of Wales Act operate. Had this proposed Measure not re-stated section 54 of the Clean Neighbourhoods and Environment Act, the Welsh Ministers' powers in relation to the making of regulations, and indeed the powers in the Measure itself, when passed, would have been limited in setting penalties. There is an exception in Part 2 of Schedule 5 to the Act making particular provision to limit the criminal penalties that can be imposed in any Measure or in any subordinate legislation made under a Measure. There is another provision in Part 3 of Schedule 5 in relation to re-statement, which is that, if you re-state legislation, the exception that features in Part 2, which I have just mentioned, is essentially set aside.

[215] **Jane Davidson:** Would you like a note on that, Chair? [*Laughter.*]

[216] **Jenny Randerson:** Yes, that might be very helpful. I am sure that the Record will be very accurate, as ever, but I think that it might be helpful to have a note on that and on the other issue that we discussed.

[217] If Members are content with that, I will bring the session to a close. I thank the Minister and the officials very much. I am sorry that we have overrun by so much time, but I am sure that everyone will agree that this is a very detailed and broad proposed Measure, and so full scrutiny is essential.

[218] I draw Members' attention to the notes of the last meeting, and to the fact that our next meeting will be held on Thursday, 25 March, when we hope to take evidence from Boots and the British Retail Consortium. Thank you very much, everyone.

yng Nghymru mewn un man, ond mae ail fantais hefyd o safbwynt cael rhagor o gyfraith ddwyieithog yng Nghymru.

Mae a wnelo'r ail reswm am ailddatgan â hyblygrwydd mewn perthynas â chosbau. Mae hynny'n bwysig oherwydd y ffordd y mae'r eithriadau a geir yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn gweithredu. Pe na bai'r Mesur arfaethedig hwn wedi ailddatgan adran 54 o'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd, byddai pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â gwneud rheoliadau, ac yn wir y pwerau yn y Mesur ei hun, pan gaiff ei basio, wedi bod yn gyfyngedig o ran pennu cosbau. Mae eithriad yn Rhan 2 o Atodlen 5 i'r Ddeddf sy'n gwneud darpariaeth neilltuol i gyfyngu ar y cosbau troseddol y ceir eu pennu mewn unrhyw Fesur neu mewn unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneud o dan Fesur. Mae darpariaeth arall yn Rhan 3 o Atodlen 5 mewn perthynas ag ailddatgan, sef, os ydych yn ailddatgan deddfwriaeth, fod yr eithriad sydd i'w weld yn Rhan 2, yr wyf newydd ei grybwyll, yn cael ei roi o'r neilltu i bob diben.

Jane Davidson: A hoffech chi gael nodyn ar hynny, Gadeirydd? [*Chwerthin.*]

Jenny Randerson: Ie, efallai y byddai hynny'n gymorth mawr. Yr wyf yn siŵr y bydd y Cofnod yn dra chywir, fel bob amser, ond credaf y gallai fod o gymorth cael nodyn ar hynny ac ar y mater arall a drafodasom.

Os yw'r Aelodau yn fodlon â hynny, dof â'r sesiwn i ben. Diolch yn fawr iawn i'r Gweinidog a'i swyddogion. Mae'n ddrwg gennym inni fynd mor bell dros yr amser, ond yr wyf yn siŵr y bydd pawb yn cytuno bod hwn yn Fesur arfaethedig eang a manwl iawn, ac felly mae craffu llawn yn hanfodol.

Tynnaf sylw'r Aelodau at nodiadau'r cyfarfod diwethaf, ac at y ffaith y cynhelir ein cyfarfod nesaf ddydd Iau, 25 Mawrth, pryd y gobeithiwn gael tystiolaeth gan Boots a Chonsortiw Manwerthu Prydain. Diolch yn fawr iawn, bawb.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4.27 p.m.
The meeting ended at 4.27 p.m.*